Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Hydref 2018

# Adroddiad Blynyddol 2017/18



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR **arleinamdani**
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL **doitonline**
www.carmarthenshire.gov.wales

# Croeso gan Arweinydd y Cyngor

Trawyd yr hoelen ar ei phen gan Eleanor Roosevelt, ymgyrchydd cymdeithasol Americanaidd a gwraig yr Arlywydd Franklin D Roosevelt, bron 60 mlynedd yn ôl pan ddywedodd: *“Pwrpas bywyd, wedi'r cyfan, yw byw, cael cynifer o brofiadau â phosibl, ymestyn allan yn eiddgar a heb ofn er mwyn cael profiadau newydd a mwy cyfoethog.”* Mae'r rhain yn eiriau syml ond dwfn iawn sy'n adleisio i'r dim bron amcanion Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin.

Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu ei chynlluniau'n ôl ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol yn ei chyfanrwydd. Ond er bod Sir Gaerfyrddin yma i aros, mae'n gwbl iawn fod disgwyl i ni gydweithio â sefydliadau eraill wrth i ni i gyd wneud ein gorau i wella bywydau ein dinasyddion.

Tua 18 mis yn ôl cyhoeddom ein Hamcanion Llesiant ein hunain ar gyfer 2017/18 ac yn yr adroddiad hwn ein bwriad yw asesu pa mor agos ydym at gyflawni ein nodau. Rydym wedi sefydlu 15 o amcanion rhyng-gysylltiedig ac rwyf yn falch o allu dweud ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol ym mhob maes, yn amrywio o helpu plant i fyw bywydau iach i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant.

Mae'r deng mlynedd diwethaf wedi bod yn hynod o heriol i bawb yn y sector cyhoeddus. Ar ôl degawd o gyni cyllidol, mae awdurdodau lleol wedi gorfod ymdopi â llai. Ond er gwaethaf y cyllidebau llai, mae ein gweinyddiaeth wedi bod yn benderfynol i fabwysiadu strategaethau arloesol er mwyn darparu gwasanaethau. Nid oes modd neilltuo mwy o arian neu fwy o bobl er mwyn mynd i'r afael â phroblemau, ac felly mae'n galonogol gweld dulliau newydd a syniadau newydd yn dod i'r fei.

Mae strategaeth y Cyngor ar gyfer cyflawni'r dyheadau allweddol hyn wedi eu hamlinellu'n gryno yn y ddogfen a gyhoeddwyd yn gynharach eleni: “*Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y pum mlynedd nesaf*”*.* Mae’r cynllun hwn yn nodi nifer o amcanion a rhaglenni allweddol y bydd y Cyngor yn ymdrechu i'w cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol newydd, gan atgyfnerthu a chysoni ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol – dyfodol llewyrchus ac iach i ddinasyddion Sir Gaerfyrddin.

**Y Cynghorydd Emlyn Dole**
**Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin**

Rydym yn croesawu sylwadau adeiladol ar ein strategaethau a'n gwasanaethau. Mae adborth gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol o ran clustnodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn rhannu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sydd gennych â ni os ydych o'r farn y byddant o gymorth. Cysylltwch â ni:
Gwrando Arnoch Chi, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin SA31 1JP neu anfonwch neges e-bost atom GwrandoArnochChi@sirgar.gov.uk

**Y Cynghorydd Emlyn Dole**
Arweinydd



**Mark James CBE**
Prif Weithredwr



# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | **Rhagarweiniad** | 4 |
| | **Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin** | |
| Dechrau Dda | 1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd | 12 |
| | 2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw | 14 |
| | 3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr | 16 |
| | 4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | 18 |
| Byw'n Dda | 5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi | 22 |
| | 6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir | 24 |
| | 7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael | 26 |
| | 8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra) | 28 |
| Heneiddio'n Dda | 9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel | 32 |
| | 10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio | 34 |
| | 11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin | 36 |
| Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus | 12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol | 40 |
| | 13. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth | 42 |
| | 14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru | 44 |
| | 15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau | 48&50 |
| | **Atodiadau** | 54-67 |

# Rhagarweiniad

### Ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar ein Hamcanion Llesiant

Ym mis Mawrth 2017, bu inni gyhoeddi ein Hamcanion Llesiant (yn cynnwys ein Hamcanion Gwella) ar gyfer 2017/18.

Mae'r ddogfen hon yn Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18 sy'n edrych ar ein cynnydd yn erbyn cynlluniau a gyhoeddwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae'n cael ei chynhyrchu gan y Cyngor oherwydd rydym yn credu y dylem ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chytbwys i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld sut yr ydym yn perfformio a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn dwyn ynghyd dwy ddyletswydd statudol sydd ar wahân ond sy'n gysylltiedig. O dan **Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y flwyddyn flaenorol (2017/18). Gweler Atodiad 1.

### Gweithio gyda Phartneriaid

Fel Cyngor, nid ni yn unig sy'n gweithio i wella bywydau dinasyddion Sir Gaerfyrddin. Rydym yn cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill. Rydym wedi sefydlu Bwrdd Sector Cyhoeddus ac mae'r bartneriaeth hon wedi cyhoeddi Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin. Cyhoeddodd yr holl gyrff cyhoeddus yn y bartneriaeth eu Hamcanion Llesiant eu hunain y llynedd, a byddwn yn gweithio i gyflawni llawer o amcanion cyffredin.

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol** - maent yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â nodweddion gwarchodedig, fel yr amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisi. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnwys tair thema allweddol sy'n edrych ar ein rôl fel cyflogwr, darparwr gwasanaeth ac arweinydd cymunedol. Mae chwe amcan strategol o dan y tair thema hynny. Mae Cynllun Gweithredu manwl wedi cael ei baratoi i ddangos sut y byddwn yn cyflawni'r amcanion hynny.

Yn ystod y flwyddyn, mae ein gwaith gyda grwpiau gwarchodedig allanol wedi parhau i dyfu ac mae ein partneriaeth â grwpiau cymunedol wedi cryfhau. Mae Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin, sy'n cael ei chadeirio gan Hyrwyddwr Anabledd y Bwrdd Gweithredol, wedi parhau i ddatblygu, gyda golwg ar sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn diwallu anghenion pobl anabl ar draws y sir. Mae ein Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol wedi parhau i gefnogi meysydd gwaith allweddol megis rhaglen ailsefydlu Syria Sir Gâr ac wedi hybu cyfleoedd hyfforddi mewn partneriaeth â Chymorth i Ddioddefwyr a sefydliadau cenedlaethol eraill.

### Yr iaith Gymraeg (hefyd, gweler Amcan Llesiant 14)

2017/18 yw'r ail flwyddyn y mae'r Safonau Iaith wedi cael eu gweithredu ar draws y Cyngor. Gwnaed llawer iawn o gyfathrebu mewnol ar draws y sefydliad a chafodd negeseuon allweddol eu cyfleu i staff ynghylch cyfleoedd amrywiol, gan gynnwys sioeau teithiol i staff mewnol. Mae cyfarfod â staff wyneb yn wyneb a thrafod unrhyw faterion sy'n codi yn eu gwaith bob dydd yn allweddol i lwyddiant y Safonau. Cymerwyd y cyfle hefyd i hyrwyddo clipiau sain ar-lein, rhestri termau, fideos a templedi newydd yn ogystal â hyrwyddo amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael i ddysgu neu wella eich Cymraeg.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi penodi Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu - yr iaith Gymraeg, i fod yn gyfrifol am ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu. Mae'r swyddog yn gweithio yn nhîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor ond cedwir mewn cysylltiad agos â'r tîm Polisi a Phartneriaeth, Rheolwyr, Penaethiaid Gwasanaeth, a'n dysgwyr. Mae'r swyddog wedi cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i staff drwy ymchwilio a darparu amrywiaeth o gyrsiau sy'n bodloni anghenion gwahanol ein staff.

Mae Fforwm Strategol y Sir, a arweinir gan y Cyngor ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau hyrwyddo iaith y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus sydd â swyddogion polisi iaith, wedi parhau â'i waith o ddatblygu rhaglen i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir ac wedi cyfrannu'n helaeth at baratoi'r Strategaeth Hyrwyddo ar gyfer Sir Gaerfyrddin, yn unol â'r Safon Hyrwyddo.

**'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'**

### Dechrau'n Dda



### Byw'n Dda



### Heneiddio'n Dda



### Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus



## Amcanion Llesiant

**1.** Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.

**2.** Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.

**3.** Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr.

**4.** Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

**5.** Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.

**6.** Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.

**7.** Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.

**8.** Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).

**9.** Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel.

**10.** Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.

**11.** Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin.

**12.** Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.

**13.** Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.

**14.** Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.

**15.** Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

# Ein Mesurau Llwyddiant ar gyfer ein Hamcanion Llesiant

**Gweler *Atodiad 2* i gymharu perfformiad**

Mae'r Cyngor, gan weithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, wedi gweithio i wella'r mesurau canlynol.

| Amcan Llesiant | | Mesurau Llwyddiant | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| 1 | **Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd** | Plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy *(PAM/029)* | |
| 2 | **Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw** | Gordewdra yn ystod plentyndod *(Rhaglen Mesuriadau Plant y GIG)* | |
| 3 | **Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr** | Cyrhaeddiad addysgol - Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio (disgyblion Blwyddyn 11) *(PAM/032) (9 canlyniad gorau'r disgyblion yn cynnwys Saesneg/Cymraeg, Mathemateg–Rhifedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth)* | Mesur Newydd ar gyfer 2017/18 |
| | | Cyfraddau presenoldeb ysgolion (Cynradd) *(PAM/007)* (Uwchradd) *(PAM/008)* | |
| | | Bodlonrwydd ar ysgol gynradd plentyn *(ACC)* | |
| 4 | **Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)** | Nifer y gadawyr nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs) *(PAM/009)* Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 *(5.1.0.2)* | (Blwyddyn 11) (Blwyddyn 13) |
| 5 | **Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi** | Cyrhaeddiad addysgol - Sgôr gyfartalog (9) wedi'i chapio (Disgyblion Blwyddyn 11) sydd yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim *(4.1.2.4) (DLIC) (9 canlyniad gorau'r disgyblion yn cynnwys Saesneg/Cymraeg, Mathemateg-Rhifedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth)* | Mesur Newydd ar gyfer 2017/18 |
| | | Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag digartrefedd *(PAM/012) (DLIC)* | |
| | | Aelwydydd ag amddifadedd sylweddol (*DLIC)* | |
| | | Aelwydydd sy'n byw mewn Tlodi (*Data 'PayCheck' CACI)* | |
| | | Oedolion sy'n gallu talu biliau ar amser heb unrhyw anawsterau *(CNC)* (Pensiynwyr) (Pobl nad ydynt yn bensiynwyr) | |
| 6 | **Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir** | Tâl wythnosol Gros Cyfartalog *(SYG – Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion)* | |
| | | Swyddi a grëwyd gyda chymorth Adfywio *(EconD/001)* | |
| | | Lefel buddsoddiad y Sector Preifat / cyllid allanol a sicrhawyd *(EconD/008)* | |
| 7 | **Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael** | Nifer y tai fforddiadwy yn y Sir *(7.3.2.24)* | |
| 8 | **Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)** | Oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn *(ACC)* | |
| | | Oedolion sy'n dweud bod ganddynt salwch hirdymor *(ACC)* | |
| | | Sgôr llesiant meddwl oedolion *(ACC) (DLIC)* | Dim data o Flwyddyn i Flwyddyn ar gael |
| | | Oedolion sydd â llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach *(CNC) (DLIC)* (Dim ysmygu, yfed > 14 unedau, bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd, meddu ar fynegai màs corff iach, bod yn gorfforol egnïol am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol). | Mesur cyfun newydd ar gyfer 2016/17 a 2017/18 |

| Amcan Llesiant | | Mesurau Llwyddiant | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| 9 | Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel | % sy'n dweud bod ganddynt ymdeimlad o gymuned *(ACC) (DLIC)*<br>(sy'n deillio o'r teimlad o berthyn; gwahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, trin â pharch.) | 👎 |
| | | Pobl yn teimlo'n ddiogel *(ACC) (DLIC)*<br>(Yn y cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, a theithio) | Dim data o Flwyddyn i Flwyddyn ar gael |
| 10 | Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio | Cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty wrth aros i gael gofal cymdeithasol *(PAM/025)* | 👎 |
| | | Cytuno bod Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal *(CNC)* | 👍 |
| | | Nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl *(PAM/015)* | 👍 |
| 11 | Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin | Pobl sy'n unig *(ACC) (DLIC)* | 👍 |
| 12 | Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol | Defnydd o ynni adnewyddadwy | 👍 |
| | | Cyfraddau ailgylchu *(PAM/030)* | 👎 |
| 13 | Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth | Cyflwr y ffyrdd *(PAM/020, PAM/021 & PAM/022)* | Dosbarth A: 👍<br>Dosbarth B: 👍<br>Dosbarth C: 👎 |
| | | Nifer a laddwyd/anafwyd mewn damweiniau ar y ffyrdd<br>*(5.5.2.21)* | 👍 |
| 14 | Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru | Medru siarad Cymraeg *(CNC) (DLIC)* | 👍 |
| | | Disgyblion yn cael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen *(PAM/033)* | 👎 |
| | | Pobl a fu mewn digwyddiadau ym maes y celfyddydau yng Nghymru y llynedd *(ACC)* | 👎 |
| | | Pobl a wnaeth ymweld â lleoedd hanesyddol yng Nghymru y llynedd *(ACC)* | 👍 |
| | | Pobl a wnaeth ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru y llynedd *(ACC)* | 👎 |
| 15 | Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau | Taliadau *'Ar-lein Amdani'* | 👍 |
| | | Pobl yn cytuno y gallant gyrchu gwybodaeth am yr Awdurdod yn y ffordd y byddent yn ei dymuno. *(ACC)* | Mesur Newydd ar gyfer 2017/18 |
| | | Pobl yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu *(ACC)* | Mesur Newydd ar gyfer 2017/18 |
| | | Pobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhedeg gwasanaethau'r awdurdod lleol. *(ACC)* | Mesur Newydd ar gyfer 2017/18 |
| | | Lefelau absenoldeb oherwydd salwch staff *(PAM/001)* | 👍 |
| | | Lleihau 'costau cynnal' y sefydliad | 👍 |
| | | Pobl yn cytuno bod y Cyngor yn gofyn am eu barn cyn pennu ei gyllideb. *(ACC)* | Mesur Newydd ar gyfer 2017/18 |

***Allwedd**: PAM – Atebolrwydd Cyhoeddus, Mesurau Cenedlaethol; SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol; ACC – Arolwg Cenedlaethol Cymru; DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol*

Un o'r dulliau sylfaenol a argymhellir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw newid ffocws o'r cynnydd o ran allbwn gwasanaeth i gyswllt cryfach rhwng gweithredoedd cyrff cyhoeddus a'r canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i seilio ar Atebolrwydd ar Sail Canlyniad, sy'n annog canolbwyntio ar y gwahaniaeth a wneir, yn hytrach na'r mewnbynnau a'r prosesau'n unig sydd gan sefydliad. Mae llwyddiant yng nghyd-destun y Ddeddf hon yn rhoi bod i gamau cadarnhaol sy'n ysgogi cyfraniad cadarnhaol at gyflawni'r amcanion llesiant drwy gamau unigol neu ar y cyd. *(Paragraff 9 SPF2 – Canllawiau Statudol)*

# Gwybodaeth Asesu Arall

## Bodlonrwydd Dinasyddion

### Arolwg Cenedlaethol Cymru

O 2016/17 ymlaen, daeth Arolwg Cenedlaethol Cymru yn lle Arolwg Cenedlaethol 2012-15, Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg Oedolion Egnïol, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru ac Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru. Mae'r canlyniadau a gyhoeddwyd wedi eu seilio ar fwy na 10,000 o gyfweliadau a gynhaliwyd ledled Cymru rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018. Rhoddwyd cyfweliad i fwy na 600 yn Sir Gaerfyrddin.

Mae 32 o ganlyniadau ar gael ar hyn o bryd ar lefel Awdurdod Lleol ar gyfer 2017/18, ond nid yw'r rhain i gyd yn ymwneud â pherfformiad y Cyngor.

Rydym wedi rhoi trefn ar ganlyniadau pob un o'r 22 o awdurdodau, o'r safle gwaethaf (22ain) i'r safle gorau (1af). **Gweler Atodiad 3.** Mae'r crynodeb isod yn dangos bod 56% (18 canlyniad) yn yr hanner uchaf a bod 44% (14 canlyniad) yn yr hanner gwaelod.

**Crynodeb o ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2017/18**

<table>
<tr><td>22ain</td><td>21ain</td><td>20fed</td><td>19eg</td><td>18fed</td><td>17eg</td><td>16eg</td><td>15fed</td><td>14eg</td><td>13eg</td><td>12fed</td><td>11eg</td><td>10fed</td><td>9fed</td><td>8fed</td><td>7fed</td><td>6ed</td><td>5ed</td><td>4ydd</td><td>3ydd</td><td>2il</td><td>1af</td></tr>
<tr><td colspan="11">Canlyniadau Gwaethaf</td><td colspan="11">Canlyniadau Gorau</td></tr>
<tr><td colspan="11">14 Canlyniad yn yr hanner yma</td><td colspan="11">18 Canlyniad yn yr hanner yma</td></tr>
</table>

Dolen i Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru

## Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

Hefyd mae **cyfres o fesurau Cenedlaethol** y mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru eu casglu - ***Gweler Atodiad 4***

Mae dwy brif ffordd o fesur gwelliant:-

- Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn
- Sut ydym yn cymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru

## Gwelliant o flwyddyn i flwyddyn

Yn ystod 2017/18, roedd **64%** o'n mesurau wedi gwella tra bo **36%** wedi dirywio; ceir llai o welliant na'r flwyddyn flaenorol, ond mae'n dal yn galonogol yn yr hinsawdd bresennol o gyllidebau llai.
Dengys y tabl isod y canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn:

| Blwyddyn | Wedi gwella | Yn gyson | Wedi dirywio | Gwelliant Net (Wedi gwella - Wedi dirywio) |
|---|---|---|---|---|
| **2017/18** | **64% (16 mesur)** | **0% (0 mesur)** | **36% (9 mesur)** | **28%** |
| 2016/17 | 65% (17 mesur) | 4% (1 mesur) | 31% (8 mesur) | 34% |
| 2015/16 | 57.5% (23 mesur) | 17.5% (7 mesur) | 25% (10 mesur) | 32.5% |
| 2014/15 | 56% (24 mesur) | 14% (6 mesur) | 30% (13 mesur) | 26% |
| 2013/14 | 59% (26 mesur) | 11% (5 mesur) | 30% (13 mesur) | 29% |

## Sut ydym yn cymharu ag Awdurdodau eraill yng Nghymru

Un ffordd o gymharu canlyniadau yw edrych ar gyfran y dangosyddion sydd gan awdurdod yn chwarter uchaf y canlyniadau, y chwarter isaf, ac uwchlaw ac islaw'r canlyniad canolrif.

O blith y 27 o fesurau yn y gyfres, ar hyn o bryd mae gennym ddata cymharol ar gyfer 18 o fesurau lle mae **56%** (10 o fesurau) yn y **ddau chwartel uchaf**, ac mae hyn yn fwy na'r 43% ar gyfer y llynedd.




Mae'r siart isod yn dangos ein sefyllfa o gymharu â holl awdurdodau eraill Cymru, o ran ein safleoedd chwartel – mae hyn wedi'i seilio ar sgôr o 4 pwynt ar gyfer pob mesur yn y chwartel uchaf, 3 phwynt ar gyfer rheiny yn y chwartel canol uwch, 2 bwynt ar gyfer rheiny yn y chwartel canol is ac 1 pwynt ar gyfer y mesurau hynny yn yn y chwartel isaf.

Mae hyn yn dangos ein bod yn y 6ed **safle gorau** (ar y cyd) ar gyfer 2017/18 ar sail 18 canlyniad, a bydd data cymharol ychwanegol ar gael ym mis Hydref 2018.



# Canlyniad Rheoleiddio

**Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2017-18**

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru Gynllun Gwella Blynyddol ar gyfer 2017-18. I grynhoi daeth i'r casgliad:-

***'Bod y Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus'***

*Tystysgrif Gydymffurfio ar gyfer Cynllun Gwella y Cyngor 2018-19*

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru Dystysgrif Gydymffurfio ar gyfer Cynllun Gwella'r Cyngor 2018-19. Mae hyn yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

# Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru - Disgwyliadau o ran Adroddiadau Blynyddol

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ei hadroddiad ar Lesiant yng Nghymru: y daith hyd yn hyn. Pennodd 9 o ddisgwyliadau allweddol ar gyfer Riportio Blynyddol. Bydd y canllawiau hyn yn llywio Adroddiadau Blynyddol y dyfodol a lle bo modd maent wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn. Gweler ein cynnydd ar y disgwyliadau hyn yn ***Atodiad 5*.**

# Dechrau'n Dda



# Amcan Llesiant 1
## Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

### Sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella'n sylweddol

Mae sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae ymarfer gwaith cymdeithasol plant yn cael ei drawsnewid yn dilyn gweithredu ymarfer systemig o fewn Podiau, gan ymgorffori'r model *Signs of Safety,* a'r tîm *Ar Ffiniau Gofal* newydd.

Mae'r gwaith o gyflwyno Dechrau'n Deg wedi parhau gan alluogi cynnydd yn y cymorth i ragor o blant 0-3 oed sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig.

Mae prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf sydd newydd gael eu comisiynu ar waith ac mae pwyslais ar atal (a lleihau i'r graddau eithaf effaith) Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Mae'r tiroedd ysgol yn cael eu defnyddio mwyfwy y tu allan i oriau ysgol er mwyn galluogi gwell mynediad i gyfleoedd chwarae.

## Pam mae'n bwysig

- Gan fod rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau yn ystod cwrs bywyd.
- Gan fod yr hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd.
- Gan fod Plant sy'n Derbyn Gofal yn fwy tebygol o fod wedi bod yn agored i risgiau niferus sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwael yn y tymor hir cyn dechrau derbyn gofal (Jones, 2011).

## Mesur Llwyddiant

**8.8%** o blant mewn gofal wedi gorfod symud gwaith 3 neu fwy (gwell canlyniad o gymharu â 9.2% yn y flwyddyn flaenorol)



## Egluro'r Canlyniadau

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae **sefydlogrwydd lleoliadau** ein plant sy'n derbyn gofal wedi gwella'n sylweddol, gyda gostyngiad o 6% yng nghanran y plant sy'n derbyn gofal a symudodd leoliad 3 gwaith neu fwy, **o 14.9%** ar 31 Mawrth 2016 **i 8.8%** ar 31 Mawrth 2018.




Bydd monitro agos yn parhau drwy banelau lleoli a pharhad. Yn y **tymor hir** erys ein pwyslais ar atal a chadw plant yn eu cartrefi gyda'u teuluoedd, y tu allan i'r system ofal lle bynnag y bo'n bosibl, yn ogystal â darparu adnoddau ychwanegol i ofalwyr maeth i gefnogi plant yn eu gofal. Bydd y tîm **'Ar Ffiniau Gofal'** newydd yn canolbwyntio ar gymorth dwys i deuluoedd gyflawni gwell canlyniadau i blant.

## Y Cynnydd a Wnaed

- Mae'r Tîm Addysg a Llesiant (LAC) yn parhau i ddarparu Hyfforddiant **Ymwybyddiaeth o Ymlyniad,** cyngor a chymorth i bob ysgol er mwyn eu paratoi'n well i allu diwallu anghenion emosiynol plant agored i niwed.
- Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ddiwygiedig, sy'n cynnwys 13 o brosiectau, yn barod i ddechrau ar 1af Ebrill 2018. Bydd y prosiectau yn gweithio tuag at atal **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** yn ogystal â helpu i liniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar y rheiny sydd eisoes yn agored iddynt. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cael ei gynnal. Cynhaliwyd digwyddiad Cysylltiadau Cryfach, Teuluoedd Cryfach ym mis Mawrth i nodi a chyflwyno ffyrdd newydd o gydweithio â theuluoedd i wella eu llesiant.
- Bellach mae **Dechrau'n Deg** wedi'i ymestyn i Rydaman. Mae Buddsoddi Cyfalaf wedi galluogi swyddfeydd Dechrau'n Deg newydd i gael eu creu sydd â Chanolfan Gyswllt gyfunol i Deuluoedd, a chyfleuster gofal plant newydd yn Ysgol Pen Rhos sydd newydd agor yn Llanelli.
- Rydym yn parhau i ymestyn y dull **Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)** ar draws y sir ar gyfer pobl ifanc 0-25 oed. Mae ceisiadau am wasanaethau TAF yn cynyddu a cheir 18-25 o atgyfeiriadau'r wythnos, ac mae mwy o alinio rhwng TAF a Dechrau'n Deg wedi galluogi gwasanaeth di-dor i deuluoedd.
- **Camfanteisio'n rhywiol ar blant** yn parhau i fod yn fater o flaenoriaeth uchel yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae Sir Gaerfyrddin yn gefnogol i'r holl ddigwyddiadau sy'n ymdrin ag atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, ac yn sicrhau bod cyfarfodydd aml-asiantaeth yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn cynllun peilot Barnardos, a chynllun gweithredu rhanbarthol. Mae **camfanteisio'n rhywiol ar blant** yn cael ei gynnwys yn yr hyfforddiant diogelu sylfaenol ar gyfer yr holl staff. Mae cyfarfodydd MACSE yn parhau ac yn datblygu.
- Mae'r tîm **Camddefnyddio Sylweddau** wedi ail-leoli i Tŷ Elwyn sydd wedi galluogi gwell trefniadau gweithio ar y cyd â thimau Troseddau Plant ac Ieuenctid, gan sicrhau bod pobl yr effeithir arnynt gan broblemau cyffuriau ac alcohol yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fo'i angen arnynt. Yn benodol mae wedi helpu i sicrhau llwybrau gofal mwy effeithiol ar gyfer pobl ifanc yn y cyfnod pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.
- Mae gwasanaethau plant yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o weithio gyda theuluoedd. Mae ein holl dimau bellach wedi rhoi'r **model systemig** o weithredu gwasanaethau gwaith cymdeithasol ar waith (o fewn podiau) sy'n cynnwys model **Signs of Safety.** Mae fformat asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth, adolygiadau a chynadleddau achos amddiffyn plant oll wedi cael eu haddasu i adleisio'r ymagwedd hon. Mae'r Tîm Ar Ffiniau Gofal newydd hefyd yn canolbwyntio ar waith ataliol adeg atgyfeirio.

Roedd darpar fam yn bryderus iawn ynghylch yr enedigaeth a bod gartref ar ei phen ei hun gyda phlentyn newydd-anedig gan taw ychydig iawn o gymorth roedd hi'n ei gael gan dad y babi ac nid oedd ganddi deulu yn yr ardal i'w helpu. Cafodd gwirfoddolwr Home-Start ei leoli i ddarparu cymorth wythnos cyn bod y babi'n cyrraedd i drafod pryderon y fam a'i hanghenion cyn bod y babi'n cyrraedd. Yna rhoddodd y gwirfoddolwr gymorth ymarferol ar ôl yr enedigaeth; helpu â bwydo, mynd allan, mynd i grwpiau babanod, a mynychu apwyntiadau. Darparwyd cymorth gartref fel bod y fam yn gallu dal i fyny â'r gwaith tŷ. Hefyd, darparwyd cymorth emosiynol ychwanegol drwy sesiynau Meddygon Teulu a Seicotherapi ar gyfer y fam.



Tyfodd y cwlwm cariad rhyngddi hi a'i mab ac o dipyn i beth nid oedd bod yn fam yn rhywbeth brawychus iddi mwyach. Erbyn hyn mae hi'n croesawu'r her o fod yn fam ac yn rhoi i'w phlentyn bopeth y mae arno ei angen. O ganlyniad mae'n fachgen bach hapus iawn sy'n dangos ymlyniad diogel i'w fam.



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

Cliciwch yma i gael gweld [ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.



# Amcan Llesiant 2
## Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw

**Dechrau troi'r gornel o ran plant sydd dros eu pwysau neu'n ordew gan 0.2%.**

Mae hwn yn amcan buddsoddi i arbed yn y tymor hir sy'n gosod y sylfeini ar gyfer iechyd tymor hir plant. Byddwn yn parhau i fonitro a yw mesurau a chamau presennol yn gwneud unrhyw wahaniaeth. Rydym wedi cynyddu nifer y plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o fwyta'n iach.

## Pam mae'n bwysig

- Gan fod amcanestyniadau yn awgrymu y bydd cynnydd yn y dyfodol o ran tueddiadau gordewdra yn ystod plentyndod, gyda'r ffigurau'n dangos mai bechgyn rhwng 2 a 15 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf.
- Gan fod yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae  wedi clustnodi mai'r man mwyaf poblogaidd gan blant i chwarae yw'r tu allan, ond hefyd canfuwyd bod 32% o rieni'n poeni cymaint am ddiogelwch eu plant fel bod hynny'n effeithio ar y cyfleoedd roedd y plant yn eu cael i chwarae.
- Gan fod asesiadau gweithgarwch o ran plant ysgol gynradd yn dangos mai bod yn gorfforol egnïol oedd y ffactor pwysicaf ond un ar gyfer llesiant cadarnhaol plant 6 – 11 oed; cysylltiadau â pherthnasau a ffrindiau oedd y pwysicaf.
- Gan fod byw bywydau iach yn galluogi plant i gyrraedd eu potensial a gwireddu eu dyheadau o ran addysg.
- Gan fod arferion a sefydlir yn gynnar mewn bywyd yn aros gyda phobl i'w galluogi i gyfrannu'n llawn at economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.

## Mesur Llwyddiant

**29.4%** o blant

dros bwysau neu'n ordew





(Gwelliant bach ar y flwyddyn flaenorol)




## Egluro'r Canlyniadau

Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei data am Raglen Mesuriadau Plant Cymru 2016/17 sy'n cynnwys casgliadau'r rhaglen mesuriadau plant a gynhaliwyd gyda phlant sy'n mynychu dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion yng Nghymru. 93.2% o'r plant sy'n gymwys wedi cymryd rhan yn y rhaglen yn Sir Gaerfyrddin gyda  94.1% yng Nghymru.




- Mae'r **% sydd dros eu pwysau neu'n ordew** yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng ychydig o **29.6%** yn 2015/16 i **29.4%** yn 2016-17 ac rydym wedi symud o'r safle 3ydd uchaf i'r **9fed uchaf yng Nghymru** ond yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 27.1%.
- Mae cyfran y plant sy'n **ordew** wedi cynyddu o **12.9%** yn 2015/16 i **14%** yn 2016/17.
- Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn aml yn parhau i fywyd fel oedolyn, gan arwain at broblemau iechyd cysylltiedig fel diabetes math 2, clefyd yr afu, cyfraddau uwch o glefyd y galon a rhai mathau o ganser.

## Y Cynnydd a Wnaed

- Mewn blwyddyn lwyddiannus arall i'r Gwasanaethau Hamdden gwelwyd *gweithgarwch corfforol cynyddol* i blant, yn enwedig o ran y rhaglen nofio; dysgu 3,700 o blant i nofio a chynyddu canran y disgyblion sy'n gallu nofio 25m erbyn diwedd blwyddyn 6 o 66% i 77%.
- Canran y plant ysgol sydd ***'Wedi gwirioni ar chwaraeon'*** wedi cynyddu o 40% i 47% (cymhariaeth Arolwg Chwaraeon Cymru 2015 i 2013 - o gymharu â 48% ledled Cymru)
- Dros 600 o bobl ifanc wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon, gan gynnwys *Cynghrair Traws Gwlad Gwent.*
- Dros 1,700 o ddisgyblion wedi defnyddio *Canolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn* ar gyfer y profiad canolfan addysg awyr agored preswyl yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Mae gwaith yn parhau gydag ysgolion ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio tiroedd ysgol y tu allan i oriau addysgu er mwyn galluogi plant i gael gwell mynediad i ***gyfleoedd chwarae.*** Mae rhai ysgolion wedi ei roi ar waith yn barod ac mae pob ysgol newydd yn cael ei dylunio gyda'r mynediad hwn mewn golwg. Mae gwahanol hyfforddiant chwarae yn cael ei ddarparu i leoliadau chwarae a gofal plant, ynghyd ag ysgolion cynradd ar draws y sir er mwyn gwella ansawdd profiadau chwarae i blant.
- Yn sgil y ***Cynllun Ysgolion Iach*** gwelwyd cynnydd yn yr ysgolion sy'n cyflawni pob Cam o'r cynllun, ac Ysgol Gymunedol Peniel oedd yr ail ysgol yn Sir Gaerfyrddin i ennill y Wobr Ansawdd Genedlaethol. Ymhlith yr ymrwymiadau allweddol eraill a gyflawnwyd oedd;
  - Sicrhau bod yr holl ysgolion yn sefydlu pynciau Bwyd a Ffitrwydd, Iechyd, ac Iechyd Meddwl ac Emosiynol;
  - Parhau i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013;
  - Hyrwyddo'r ***'10 cam i gynnal Pwysau Iach'*** mewn partneriaeth â'r Cynllun Ysgolion Iach Cynaliadwy Cyn-ysgol.

## Cynadleddau Llwyddiannus yn canolbwyntio ar iechyd a llesiant pobl ifanc




Cynhaliwyd **15fed Cynhadledd Flynyddol y Cyngor Ieuenctid** dan y teitl ***'Diwrnod Gwael, Dim Bywyd Gwael'*** ar 22 Tachwedd ym Mharc y Scarlets ac roedd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Trefnwyd gweithgareddau er mwyn i gyfranogwyr ennill gwell dealltwriaeth o iechyd meddwl a sut mae darparu cymorth.



Roedd ein **Cynhadledd Ysgolion Iach** a gynhaliwyd ym Mharc y Scarlets wedi canolbwyntio ar lesiant disgyblion a staff. Yn dilyn gair o groeso a chyflwyno'r cefndir gan y Cyng. Glynog Davies, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant, cafwyd cyfraniadau gan Aeron Rees, Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant, yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru a Sian Griffiths, Arweinydd Addysg yr Hwb Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. Bu i fyfyrwyr drama o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, gyda Jain Boon yn cyfarwyddo, gyflwyno darn pwerus o theatr i amlygu effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a phwysigrwydd cefnogi plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Dilynwyd hyn gan gyfres o weithdai ac amser i'w dreulio yn y 'Farchnad' sy'n arddangos y gwasanaethau sydd ar gael i ysgolion.



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol
dros Addysg a Phlant
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 3
## Dechrau'n Dda - Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr

### Cyrhaeddiad dysgwyr wedi'i gynnal er gwaethaf y newidiadau i fanylebau arholiad a heriau ariannol

Yn dilyn newidiadau polisi a newidiadau allweddol i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 gan Lywodraeth Cymru, nid yw'n briodol cymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae canlyniadau TGAU Sir Gaerfyrddin yn adleisio perfformiad ar draws Cymru ac mae 57.2% o'n dysgwyr wedi cyflawni dangosydd cynhwysol allweddol lefel 2 (o leiaf 5 TGAU gradd A * i C yn cynnwys iaith a mathemateg). Mae ein canlyniad yn ein gosod yn gyffyrddus uwch na chyfartaledd Cymru o 2.6 pwynt canran. Roedd canlyniadau profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol mewn cyfnodau allweddol eraill o addysg wedi gostwng ychydig iawn, ond roedd canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 wedi parhau i ddangos tuedd galonogol ar i fyny mewn perfformiad.

## Pam mae'n bwysig

- Rydym ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon.
- Rydym am wella canlyniadau i bobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes, i'w galluogi i ffynnu yn yr 21ain Ganrif ac ym myd gwaith.
- Mae ymchwil gan *Y Sefydliad Addysg* yn awgrymu bod mynychu cyn-ysgol dda ac ysgol gynradd dda yn gallu cael mwy o effaith ar gynnydd academaidd plant na'u rhywedd neu eu cefndir teuluol (Taggart, 2015)
- Mae ein gwasanaeth wedi ymroi o hyd i'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a amlinellir yn nogfen strategol ddiweddaraf Llywodraeth Cymru 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'

## Mesurau Llwyddiant

Dim cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn ar gael

**360.8** yw'r sgôr gyfartalog (y 9 canlyniad arholiad gorau) ar gyfer disgyblion blwyddyn 11

7fed **uchaf** yng Nghymru

*Ffynhonnell: StatsCymru*

**94.4%**

Presenoldeb mewn Ysgolion Cynradd

**94.3%**

Presenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd

*Mae'r ddau ganlyniad wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol (Cynradd 94.8% ac Uwchradd 94.5%)*

*Ffynhonnell: StatsCymru*

**90%**

yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn

*(gostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 93%)*

**9fed uchaf** yng Nghymru

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

## Egluro'r Canlyniadau

- Y sgôr gyfartalog yn seiliedig ar y **9 canlyniad arholiad gorau** ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yn ystod 2017/18 (Blwyddyn Academaidd 2016/17) yw 360.8 lle roedd gan y merched sgôr gyfartalog o 372.6 a'r bechgyn 349.4.
- Bu i **bresenoldeb ysgol** mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Sir Gaerfyrddin *ddirywio* yn ystod 2017/18 (Blwyddyn Academaidd 2016/17). Gwnaeth presenoldeb mewn ysgolion cynradd leihau o 94.8% i 94.4% ac o'r 13eg safle i'r 21ain safle yng Nghymru. Bu i bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd leihau o 94.5% i 94.3% ac o'r 8fed safle i'r 9fed safle. Bydd ymgynghori cadarn gyda Phenaethiaid, y Gwasanaeth Lles Addysg a phobl broffesiynol gysylltiedig er mwyn datblygu cynllun gweithredu i wella presenoldeb ysgol yn y dyfodol.
- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod **90% yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn,** ac mae hyn ychydig yn is na chanlyniad y flwyddyn flaenorol sef 93%; rydym wedi symud o'r 4ydd safle i'r 9fed safle yng Nghymru.

## Y Cynnydd a Wnaed

- Canlyniadau **profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol** yn ystod cyfnodau allweddol eraill o addysg wedi gostwng ychydig bach ond canlyniadau Cyfnod Allweddol I wedi parhau i ddangos *tuedd galonogol a pharhaus ar i fyny* mewn perfformiad. Mae ein canlyniadau ar gyfer Dangosydd Pwnc Craidd Cyfnod Allweddol I (dysgwyr yn cyflawni Lefel 5 ar gyfer Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) wedi rhoi bod i *ganlyniadau uwch* na chyfartaledd Cymru am y pedair blynedd diwethaf.
- Mae ein perfformiad ar drothwy Lefel I (dysgwyr yn ennill dau neu fwy o gymwysterau Safon Uwch neu gymhwyster cyfwerth) yn parhau i fod yn gryf ac mae 97.8% o'n dysgwyr wedi llwyddo i gyrraedd y nod hwn. Mae'r canlyniad yn ein gosod *uwchlaw cyfartaledd Cymru* o 97.1%. Mae ein perfformiad wedi bod yn **uwch na'r ffigur cenedlaethol bum mlynedd yn olynol**.
- Gwahoddwyd chwech o ysgolion Sir Gaerfyrddin i ddigwyddiad ***Cydnabod Rhagoriaeth mewn Addysg*** **ESTYN** yng Nghaerdydd ym mis Hydref. Cymeradwywyd yr ysgolion rhagorol hyn am eu gwaith caled, arweinyddiaeth gref, gweledigaeth glir ac ymrwymiad diflino i wella. Roedd cynrychiolwyr o'r ysgolion hyn wedi cael tystysgrif a llongyfarchiadau gan Meilyr Rowlands, *Prif Arolygydd* a Kirsty Williams, *Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg*. Yr ysgolion hyn oedd - Ysgol y Bynea, Ysgol Parc-yr-hun, Ysgol Saron, Ysgol Heol Goffa, Ysgol Glan-y-môr ac Ysgol Bryngwyn. Cafodd wyth o ysgolion eraill eu harolygu yn ystod y flwyddyn; cafodd pedair ysgol eu rhoi yng nghategori Monitro Estyn ac un ei gosod yng nghategori Gwelliant Sylweddol Estyn.
- Bu i'n **Rhaglen Moderneiddio Addysg** barhau gan roi budd i filoedd o'n dysgwyr yn sgil cwblhau prosiectau sylweddol, gwerth mwy nag £20 miliwn, yn Ysgol Bro Dinefwr, Maes y Gwendraeth, Carreg Hirfaen, Bryngwyn, Coedcae, Sant Ioan Llwyd, Trimsaran a Phen Rhos.
- Thema sydd wedi bod yn gyffredin eleni gan holl ysgolion Sir Gaerfyrddin yw'r **Fframwaith Cymhwysedd Digidol,** sy'n defnyddio gweithdai a sesiynau rhwydweithio i gefnogi datblygu sgiliau digidol. Roedd cynrychiolaeth gref o ysgolion Sir Gaerfyrddin yn Nigwyddiad Dysgu Digidol Cenedlaethol 2017. Mae Ysgol Bro Banw wedi ennill y wobr Diogelwch Ar-lein ar gyfer Datblygu Cymhwysedd Digidol drwy *Flip Teaching* ac roedd yr ysgol yn gyd-enillwyr y wobr Prosiect Digidol ar gyfer The Superheroes. Enillodd Ysgol Coedcae Wobr Gymunedol Hwb 2017 am adnoddau ar gyfer y cwrs Astudiaethau Crefyddol TGAU newydd. Mae diogelwch ar-lein yn parhau i gael ei hyrwyddo ac mae tystiolaeth o hynny, gyda 100% o ysgolion Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan drwy fframwaith ar-lein 360° Safe Cymru Llywodraeth Cymru a SWGfL.

**Ysgol Pen Rhos – Diwrnod Cyntaf**

Ymunodd Mr Gareth Morgans, y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, â disgyblion Ysgol Pen Rhos wrth iddynt ddechrau eu diwrnod cyntaf yn eu hysgol newydd yn Llanelli.

Ystyrir bod yr adeilad ysgol newydd yn eithriadol ac roedd gwên lydan ar wynebau'r disgyblion, rhieni a'r staff fel ei gilydd.

Ar ôl ymdopi am flynyddoedd lawer mewn adeilad ysgol heriol, roedd Mr Joe Cudd, y Pennaeth, a'i staff wedi sicrhau bod yr ysgol yn barod i dderbyn disgyblion ac i fwrw ymlaen â'u dysgu.

Mae'r cynllun yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, wedi'i chyllido gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru.





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 4

## Dechrau'n Dda - Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

### Cynnydd parhaus tuag at leihau NEET

Mae ystod o gamau sy'n gysylltiedig â chwe elfen Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn digwydd yn barhaus yn Sir Gâr, gan gyfrannu at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

## Pam mae'n bwysig

- Gan fod lleihau'r nifer sy'n NEET yn lleihau effaith tlodi a'r gost ehangach i gymdeithas o wasanaethau cymorth, dibyniaeth ar fudd-daliadau a throseddu.
- Gan fod mwyhau cyfleoedd bywyd plant yn hanfodol, a sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn gallu camu ymlaen i'r chweched dosbarth mewn ysgolion, i Golegau Addysg Bellach, neu i gael hyfforddiant neu waith.
- Gan ei fod yn galluogi pobl ifanc i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau lleol.

## Mesurau Llwyddiant




**1.4%** o ddisgyblion Blwyddyn 11 a

**3.0%** o ddisgyblion Blwyddyn 13

nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (NEET)

(Y flwyddyn flaenorol - Bl. 11: **2.1%** a Blwyddyn 13: **2.0%)**

Blwyddyn 11



Blwyddyn 13

## Egluro'r Canlyniadau

- 1.4%, neu 27 o ddisgyblion **Blwyddyn 11** yn NEET, sy'n cyfateb i 98.6% o ddisgyblion, neu 1,830 o ddisgyblion sy'n dal mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. Roedd nifer fach o ddisgyblion (27), naill ai heb ymateb i gysylltiad neu yr oedd yn hysbys eu bod wedi gadael Sir Gaerfyrddin. Y canlyniad oedd y 12fed gorau yng Nghymru ac roedd yn is na chyfartaledd Cymru o 1.6%.

Data Cyrchfannau ar gyfer Disgyblion B11 Sir Gaerfyrddin (Blwyddyn Academaidd 2016-17)




- 3.0% neu 20 allan o 663, o ddisgyblion **Blwyddyn 13** yn NEET, a dim ond 10 o ddisgyblion oedd naill ai heb ymateb i gysylltiad neu yr oedd yn hysbys eu bod wedi gadael yr ardal. Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar y canlyniad yn cynnwys cost gynyddol addysg uwch, ymwybyddiaeth pobl ifanc o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith, a diffyg adnabod gan ysgolion o'r grŵp hwn o bobl ifanc yn dilyn canlyniadau Safon Uwch.

## Y Cynnydd a Wnaed

- Mae darparu'r ***Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*** yn cynnwys adnabod pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio, broceru a chydlynu cymorth, olrhain a throsglwyddo pobl ifanc drwy'r system addysg, darpariaeth i ddiwallu anghenion a nodwyd a datblygu'r sgiliau cyflogadwyedd a'r cyfleoedd i gael cyflogaeth. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy Wasanaeth Cymorth Ieuenctid y Cyngor Sir, ynghyd ag ysgolion, Coleg Sir Gâr, darparwyr hyfforddiant, sefydliadau gwirfoddol a Gyrfa Cymru.

- Bydd bod yn rhan o brosiectau rhanbarthol Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) sef *Cynnydd* a *Cam Nesa,* yn golygu y bydd **bron £4m** o gyllid ychwanegol Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gael i ddarparu gwasanaethau cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET yn 2018-2021.

- Bydd datblygu'r Cwricwlwm 11-19 lleol, dwyieithog, sydd â chysylltiad agos ag adolygiad Dyfodol Llwyddiannus Llywodraeth Cymru a'r prosiectau yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe, yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ennill swyddi yn yr economi leol a rhanbarthol.

### Astudiaeth Achos Prosiect Cynnydd




Cafodd y person ifanc ei ddynodi drwy atgyfeiriad gan yr ysgol, ac yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda'r person ifanc a'i deulu, daeth yn rhan o brosiect *Cynnydd.*

Rhoddwyd pecyn o gymorth hyblyg i'r person ifanc i'w helpu i oresgyn ei bryderon. Roedd wedi ymwrthod â bywyd ysgol yn llwyr, nid oedd ganddo unrhyw ddyheadau na chynlluniau ar gyfer y dyfodol, ac roedd wedi cael cymorth yn y gorffennol gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc *(CAMHS).* Roeddem wedi llwyddo i ddelio ag ef ar sail un i un, a fu'n llwyddiannus iawn.

Gyda chymorth ac ymyrraeth *Cynnydd,* yn hytrach na pheidio â mynd i'r ysgol o gwbl mae bellach wedi ennill lle ar raglen *Mynediad Ieuenctid* ym Mlwyddyn 11. Mae ef wedi tyfu mewn hyder ac o ganlyniad mae wedi bodloni cwrdd â *Gyrfa Cymru* i drafod lleoliad gwaith posibl. Mae eisoes wedi dweud y byddai'n hoffi dilyn cwrs mewn ffotograffiaeth ar ôl gadael ysgol ac mae wedi dangos ymrwymiad a brwdfrydedd o ran cymryd y camau gofynnol i gyflawni hyn. Mae hefyd wedi bod yn mynd ar deithiau grŵp; rhywbeth na fyddai wedi digwydd cyn cael cymorth gan *Cynnydd.*

Mae'r llanc ifanc yn gadarnhaol iawn ynghylch y newidiadau sydd wedi digwydd yn ei fywyd, ac mae'n obeithiol ynghylch ei ddyfodol erbyn hyn. Nid oedd y gobaith hwnnw'n perthyn iddo o gwbl y tro cyntaf inni gyfarfod ag ef. Mae'n dweud ei fod yn hapusach o lawer, yn gyffrous ynghylch symud ymlaen yn ei fywyd, yn fwy hyderus ac yn teimlo'n well am ei hun.



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.


Dechrau'n Dda
Byw'n Dda
Heneiddio'n Dda
Amgylchedd
Iach, Diogel
Llewyrchus

# Byw'n Dda



# Amcan Llesiant 5

## Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

### 800 yn llai o aelwydydd yn byw mewn tlodi (i lawr o 35.9% i 35%)

Diffiniad Llywodraeth Cymru o dlodi yw pan fo *"incwm yr aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain"*. Mae hyn yn golygu aelwyd lle mae'r incwm yn llai na £18,553 y flwyddyn (2017 - 60% o £30,921).

Yn ôl y diffiniad hwn, gellir diffinio bod 35% yn byw mewn tlodi Sir Gaerfyrddin, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru o 33% a'r 8fed gwaethaf yng Nghymru.

**Ffigurau Incwm Aelwydydd** *Fynhonnell: CACI's 'PayCheck' data*

| Aelwydydd sy'n Byw mewn Tlodi | 2014 | | 2015 | | 2016 | | 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sir Gaerfyrddin | Cymru | Sir Gaerfyrddin | Cymru | Sir Gaerfyrddin | Cymru | Sir Gaerfyrddin | Cymru |
| | 29,956 (37.1%) | 446,586 (33.6%) | 29,086 (36.3%) | 459,283 (35%) | 29,020 (35.9%) | 460,322 (34%) | 28,223 (35.0%) | 450,616 (33%) |

## Pam mae'n bwysig

- Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant. Mae'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn niweidio ansawdd bywyd teuluoedd a chymunedau.
- Mae ymchwil yn dangos bod canlyniadau plant sy'n cael eu magu ar aelwydydd heb waith yn gyson waeth o ran cyrhaeddiad addysgol a gallu gwybyddol na phlant eraill y mae eu rhieni wastad yn gweithio.

## Mesurau Llwyddiant



**65.1%** o aelwydydd wedi eu hatal rhag mynd yn ddigartref



*Wedi gwella o'r flwyddyn flaenorol (64.2%)*



**15.8%** o'r aelwydydd mewn amddifadedd materol



*Wedi cynyddu o'r flwyddyn flaenorol (15.3%)*
*11eg **uchaf** yng Nghymru*

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Dim cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn ar gael

**307.6** yw'r sgôr gyfartalog (y 9 canlyniad arholiad gorau) ar gyfer disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am ddim



6ed **uchaf** yng Nghymru

*Ffynhonnell: StatsCymru*

## Egluro'r Canlyniadau

- O blith y 413 o aelwydydd yr oedd **digartrefedd yn fygythiad** iddynt yn ystod 2017/18, llwyddwyd i atal 269 rhag mynd yn ddigartref – 65.1%. Roedd 111 o ataliadau aflwyddiannus ac roedd 33 wedi tynnu yn ôl.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18, dynodwyd bod 15.8% o'r aelwydydd oedd yn rhan o'r arolwg yn Sir Gaerfyrddin wedi'u categoreiddio'n rhai **sy'n byw mewn amddifadedd sylweddol,** ac mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 16.2%, ond mae wedi cynyddu ers canlyniad arolwg y flwyddyn flaenorol o 15.3%. Er gwaethaf cynnydd bach yn y ffigur, rydym wedi symud o'r 14eg safle i'r 11eg safle.
- Y sgôr gyfartalog yn seiliedig ar y 9 **canlyniad arholiad gorau** ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 sy'n cael **Prydau Ysgol am Ddim** yw 307.6 o gymharu â sgôr o 360.8 ar gyfer y rhai nad ydynt.

## Y Cynnydd a Wnaed

- Rydym wedi sefydlu'r *Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol* sy'n cyfuno deg menter yn un er mwyn nodi a chefnogi'r sawl sydd wedi dioddef yn sgil cam-drin ariannol ac er mwyn atal erledigaeth. Mae'r Cynllun hwn yn creu rhwydwaith lle mae'r trydydd sector a phartneriaid yr awdurdod lleol yn cytuno i gydweithio â Safonau Masnach er mwyn nodi, atgyfeirio a chefnogi dioddefwyr cam-drin ariannol.
- Mae llythrennedd ariannol bellach ar y cwricwlwm ysgol.
- Bu i'r *Panel Ymgynghorol Trechu Tlodi* ailymgynnull a nodwyd sawl maes allweddol i ymchwilio ymhellach iddynt - un oedd astudiaeth achos i'w chynnal fel prosiect peilot yn **Ward Ty-isa**'r flwyddyn nesaf, er mwyn datblygu ffyrdd o drechu tlodi.
- Gyda golwg ar helpu i fynd i'r afael â thlodi, mae *Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf* yn canolbwyntio ar ddarparu brecwast a chinio iach a gweithgareddau iach i blant Blwyddyn 6 sy'n cael prydau ysgol am ddim ac i blant pobl dlawd sy'n gweithio.
- Yn ystod y flwyddyn cychwynnwyd cynllun prawf Wi-Fi i hybu cysylltedd a sbarduno adfywio economaidd yn y gymuned. Llwyddodd y Cyngor, ar ran Grŵp Gweithredu Lleol *Grŵp Cefn Gwlad*, i sicrhau cyllid o hyd at £120,000 gan gynllun LEADER ynghyd â chyfraniadau ychwanegol gan y Cyngor a'r trefi gwledig sy'n cymryd rhan.
- Mae cynllun prawf wedi'i lansio yn ardal Caerfyrddin i nodi a darparu cymorth cyn-denantiaeth i'r tenantiaid hynny fydd o bosib yn ei chael yn anodd talu eu rhent. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion i gael gwybodaeth ariannol fwy cadarn ar y pwynt cyswllt cyntaf ac adnabod y rheiny y gallai fod angen cymorth pellach arnynt. Bydd pob ymgeisydd newydd yn derbyn cyfarwyddyd cyn-denantiaeth a hefyd mae cyngor cyn-denantiaeth un i un ar gael hefyd i ymgeiswyr llwyddiannus
- Mae nifer o brosiectau sy'n gweithio i fynd i'r afael â materion tlodi gwledig wedi'u cyflwyno yn 2017/18, yn dilyn pethau ddaeth i'r amlwg yn astudiaeth tlodi gwledig 2015. Mae’r rhain yn cynnwys; addysgu tenantiaid iau a thenantiaid y dyfodol i reoli eu sefyllfa ariannol yn well ac i osgoi dyled; ehangu'r ffordd y cynigir gwasanaethau yn yr 'Hwb' yn Llanelli i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig; prosiect ymwybyddiaeth o lesiant meddyliol ac iechyd meddwl; darparu cymorth i bobl mewn ardaloedd gwledig fod yn barod am waith a phrosiect gan *PCYDDS* sy'n ceisio manteisio i'r eithaf yn gymdeithasol ac yn economaidd ar ail-leoli *S4C* i Gaerfyrddin. Fodd bynnag, mae panel newydd o'r enw *Panel Ymgynghorol Materion Gwledig* wrthi'n chwilio am gyfleoedd pellach i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

CLWB AR ÔL YSGOL

Mae disgyblion Ysgol Gymraeg Brynsierfel yn Llanelli a'u rhieni yn elwa yn sgil clwb ar ôl ysgol newydd (a chlwb gwyliau yn ddiweddar) sy'n darparu gweithgareddau hwyliog a gofal plant mewn amgylchedd diogel.

Mae'r Clwb yn rhedeg o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor ysgol ac mae'n adnodd hanfodol ar gyfer rhieni a gofalwyr, yn enwedig y rheiny sydd yn gweithio ac yn chwilio am ofal plant o safon uchel, cost isel. Hefyd mae teuluoedd sydd ar incwm bach yn gymwys i gael help ariannol





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig
**Y Cynghorydd Cefin Campbell**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 6
## Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

**Tâl Wythnosol Gros Cyfartalog wedi cynyddu 4.7%** (o £494.5 i £517.5)
Yn Sir Gaerfyrddin y mae'r cyflog 5ed uchaf yng Nghymru ar gyfer 2017, yr 8fed uchaf y flwyddyn flaenorol
Mae hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £505.9

## Pam mae'n bwysig

- *Swyddi sy'n talu'n dda* ar gyfer pobl leol yw prif flaenoriaeth y Cyngor.
- Mae *cynyddu cyflogadwyedd* yn hanfodol i drechu tlodi a lleihau anghyfartaledd ac yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n gallu i fyw mewn cymdeithas.

## Mesurau Llwyddiant

| | | |
|---|---|---|
| Tâl Wythnosol Gros Cyfartalog bellach yw<br>**£517.5**<br>(£494.5 o'r blaen)<br>cyflog 5ed uchaf yng Nghymru<br>*Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion* | **352.2**<br>o Swyddi a Grëwyd gyda Chymorth Adfywio<br>yn ystod 2017/18 | **Dros £16.7m**<br>Buddsoddiad y Sector Preifat / Cyllid Allanol a Sicrhawyd<br>yn ystod 2017/18 |

## Egluro'r Canlyniadau

- **Crëwyd 352.5 o swyddi** gyda chymorth adfywio yn ystod 2017/18 yn y lleoliadau canlynol: - Canolfan Parry Thomas; Cymorth Busnes; Bwrsariaeth y Goleudy; Stryd Cyfleoedd; Parth Twf Cross Hands a thrwy Brosiectau Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal rhoddwyd swyddi i 250 o bobl a helpwyd dros 1,000 o bobl i wirfoddoli.
- Roedd cyfanswm o **£16.7m o fuddsoddiad sector preifat** wedi ei sicrhau yn ystod 2017/18 drwy'r Biwro Cymunedol, Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin, Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol ar gyfer Trawsnewid, Prosiect Denu Pentywyn, Lôn Jackson, Parth Twf Cross Hands a Phrosiectau Gwlyptiroedd.

## Y Cynnydd a Wnaed

### Y Fargen Ddinesig

- Ers i'r *Fargen Ddinesig* gael ei llofnodi, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud gydag wyth o'r 11 o achosion busnes ar gyfer y prosiectau wedi cael eu cyflwyno i Lywodraethau'r DU a Chymru ar gyfer eu cymeradwyo'n derfynol:-
  1. Bydd yr adeilad newydd o'r enw **'Yr Egin'**, a ariennir yn rhannol gan y Fargen Ddinesig, ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac yn darparu swyddfeydd o'r radd flaenaf a fydd yn defnyddio technoleg ddigidol gyfoes, ar gyfer y diwydiannau creadigol a bydd hefyd yn gartref i bencadlys newydd S4C.
  2. Yn Llanelli, mae cais cynllunio amlinellol wedi cael ei gyflwyno ar gyfer **y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant** yn Llynnoedd Delta. Bydd y prosiect hwn, gwerth £200 miliwn, yn cynnwys canolfan hamdden newydd arloesol, lle ar gyfer ymchwil feddygol, darpariaeth ar gyfer y gwasanaeth iechyd a gwaith tirweddu helaeth a fydd yn creu cyfleoedd deniadol i feicio a mynd am dro.

### Yr Economi Wybodaeth ac Arloesedd

- Mae'r **prosiect Sgiliau a Thalentau** sy'n cael ei arwain gan *Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin Cymru*, eisoes yn ystyried y bylchau presennol o ran sgiliau a'r ffordd orau o roi sylw i hyn, yn awr ac yn y blynyddoedd i ddod, drwy gyflwyno cyrsiau sydd wedi'u teilwra i brosiectau'r Fargen Ddinesig.
- Nod ein Grŵp Gorchwyl **Materion Gwledig** yw nodi camau y gall y Cyngor, mewn partneriaeth â sefydliadau a chyrff cyhoeddus eraill, eu cymryd i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar gymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu economaidd, band eang, tai, trafnidiaeth, amaethyddiaeth, darparu gwasanaethau, addysg a bywyd cymunedol i enwi ond rhai, a hefyd bydd yn sicrhau ac yn cefnogi adfywio gwledig mewn blynyddoedd i ddod.

### Trawsnewidiadau – Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015-30

- Rydym wedi gwneud cynnydd ar y **6 o brosiectau trawsnewidiol** yn y *Cynllun Adfywio Strategol:*

1. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran nifer o brosiectau a nodwyd ym Mhrif Gynllun Canol Tref **Caerfyrddin,** ac mae cyllid a chaniatâd wedi'u sicrhau ar gyfer Cynigion Ailddatblygu Lôn Jackson a phrosiectau Porth a Gwlyptiroedd Caerfyrddin.
2. Mae cynnydd wedi'i wneud yn ystod 2017/18 o ran nifer o brosiectau cynllun gweithredu Tasglu **Rhydaman.** Mae gwaith wedi dechrau ar: Cyffordd Tir y Dail, cynllun Lledu Ffordd Stryd Marged, a Chynlluniau Gwella Croesfannau Rheilffordd ac mae rhif 41 Stryd y Cei wedi cael ei brynu i ddatblygu Hwb newydd.
3. Mae cynnydd wedi cael ei wneud o ran prosiectau Grŵp Gorchwyl Tref **Llanelli** - mae prosiect Stryd Cyfleoedd i brynu 15 eiddo ac 1 safle datblygu wedi ei gwblhau'n llwyddiannus. Mae cyllid ar gyfer y dyfodol yn cael ei geisio mewn perthynas â Chronfa Adfywio a Dargedwyd i ehangu'r gwaith ar y portffolio a brynwyd drwy raglen Stryd Cyfleoedd. Mae Menter ar y Cyd Llanelli yn mynd rhagddo; mae Ffatri Pontrilas yn Noc y Gogledd wedi cael ei dymchwel ac mae caniatâd cynllunio amlinell wedi'i roi i ailddatblygu'r safle at ddibenion tai.
4. Mae cyllid wedi'i sicrhau i gyflawni ail gam Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain **Cross Hands.**
5. Rydym yn gweithio ar nifer o brosiectau twristiaeth fel Canolfan Fasnachol Parry Thomas ym **Mhentywyn** sydd wedi'i gosod yn llawn ac mae arian wedi'i sicrhau i gyflawni prosiect Denu Twristiaid Pentywyn, sydd werth £7m. Gallwch weld mwy ar dwristiaeth yn Amcan Llesiant 15 - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a'r Diwylliant.
6. Yn **ardal wledig** y sir, mae nifer o brosiectau twf busnes wedi cael cymorth drwy Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin. Hyd yn hyn mae 16 o ymgeiswyr wedi cwblhau neu wrthi'n cwblhau prosiectau a fydd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd i'r Sir Gaerfyrddin wledig. Yn ogystal, mae 4 o brosiectau cyfalaf ar waith (drwy TCPDF) a fydd yn cynyddu'n sylweddol ofod cyflogaeth masnachol yn y sir.

**ESGYN pobl i weithio! -** Ar ôl symud i Lanelli o South Shields wedi iddo golli ei swydd, roedd Gary wedi colli cryn dipyn o hyder yn ei allu i ddod o hyd i swydd. Nid oedd yn siŵr a oedd ganddo'r sgiliau i ddechrau swydd mewn gweithle anghyfarwydd a llwyddo mewn swydd newydd. Drwy drafodaeth â'i fentor *ESGYN,* nodwyd sgiliau trosglwyddadwy Gary a phenderfynwyd mai gweithgynhyrchu neu adeiladu oedd y trywydd gorau iddo ei ddilyn gan fod cynifer o'i sgiliau yn drosglwyddadwy. Rhoddwyd cefnogaeth gan raglen ESGYN i Gary gwblhau'n llwyddiannus hyfforddiant Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) a gwneud cais am ei garden CSCS. Trwy raglen *ESGYN* sicrhaodd Gary leoliad gwaith yn *Lloyd a Gravell* ac ar ôl cwblhau ei leoliad cynigiwyd swydd amser llawn â chyflog iddo.

*"Ni alla' i ddiolch i dîm Esgyn ddigon am ei gefnogaeth a'i arweiniad. Mae'n ymddangos bod fy ngyrfa yn ôl ar ben ffordd o'r diwedd!"*





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol
dros Ddatblygu Economaidd
**Y Cynghorydd Emlyn Dole (Arweinydd)**

Cliciwch **yma i gael gweld ein cynnydd manwl** o ran yr amcan hwn.

## Amcan Llesiant 7
## Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

### Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol rhwng 2016 a 2021

Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy.
Rydym wedi darparu dros 400 o dai fforddiadwy ychwanegol ers 2016 fel rhan o'r cynllun tai fforddiadwy.

## Pam mae'n bwysig

- Mae tai fforddiadwy o ansawdd da yn hybu *iechyd a llesiant,* gan ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt.
- Mae tai fforddiadwy o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni yn dda i *Bobl a'r Amgylchedd* - bydd yr ynni a ddefnyddir yn y cartref yn llai, gan gael effaith sylweddol ar leihau costau tanwydd i'r preswylwyr. Bydd hefyd yn cael effaith sylweddol ar leihau llygryddion yn yr atmosffer a lliniaru tlodi tanwydd yn ein cymunedau.
- Mae'n dda i'r *Strwythur Cymdeithasol* - mae codi tai fforddiadwy yn y mannau cywir yn caniatáu i gymunedau groesawu ystod eang o deuluoedd a chreu grŵp o breswylwyr bywiog, amrywiol.
- Mae'n dda i'r *Economi* - er mwyn ffynnu, mae angen i fusnesau newydd gael mynediad hwylus i'w gweithlu. Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio yn aros yn eu cymuned.

## Mesur Llwyddiant

**+ 235**

Tai Fforddiadwy Ychwanegol
yn ystod 2017/18





## Egluro'r Canlyniadau

**Perfformiad Tai Fforddiadwy - Perfformiad Cyffredinol o Ebrill 2016**
**408 o Dai Fforddiadwy wedi'u Darparu**



## Y Cynnydd a Wnaed

- Fel rhan o *Gynllun Tai Fforddiadwy 2016-2020* hyd yn hyn rydym wedi darparu **408** o dai fforddiadwy ychwanegol yn cynnwys y canlynol:-
  - *Asiantaeth Gosod Syml* - 95
    *(32 – 2016/17 – 63 -2017/18)*
  - *Ailddechrau defnyddio tai gwag* - 91
    *(28 – 2016/17 – 63 -2017/18)*
  - *Prynu tai'r sector preifat* –114
    *(45 – 2016/17 – 69 -2017/18)*
  - *Datblygiad tai newydd Cymdeithas Tai* – 65
    *(45 – 2016/17 – 20 -2017/18)*
  - *Cyfraniad gan y datblygiad (adran 106)* - 43
    *(23 – 2016/17 – 20 -2017/18)*




- Rydym wedi prynu **98** o dai sector preifat i gynyddu *stoc dai y Cyngor ei hun.* 16 o dai wedi eu prynu'n uniongyrchol gan Gymdeithas Tai Bro Myrddin.

- Cyllid wedi'i sicrhau i adeiladu **dros 60** o *dai cyngor newydd* (yn cynnwys yr amcanestyniadau diweddaraf ar gyfer y Grant Tai Fforddiadwy gan Lywodraeth Cymru). 3 o safleoedd wedi'u nodi lle bydd gwaith adeiladu'n dechrau yn 2018/2019.

- Y cyfraniad gan y datblygiad yw eiddo *perchentyaeth cost isel*.

- Drwy'r system gynllunio (Adran 106) mae 43 o dai wedi'u darparu ar gyfer perchentyaeth cost isel ac wedi'u henwebu i bobl leol yr oedd angen help arnynt i brynu eu tai eu hunain.

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin eisoes yn cyflawni ei addewid o ddarparu 1,000 yn fwy o dai fforddiadwy erbyn 2021. Bydd 60 o dai Cyngor newydd yn cael eu hadeiladu yn Sir Gaerfyrddin dros y ddwy flynedd nesaf mewn buddsoddiad o £8.5 miliwn i gynyddu stoc dai yr awdurdod lleol.*





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai
**Y Cynghorydd Linda Evans**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# **Amcan Llesiant 8**

## Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

**Bron 1.6 miliwn o ymweliadau â'n Canolfannau Hamdden, gan gynhyrchu budd o ran Gwerth Cymdeithasol o £4.6 miliwn yn ystod 2017/18**

Rydym am sicrhau:

- Taw Sir Gaerfyrddin yw'r sir fwyaf heini ac iach yn y Deyrnas Unedig
- Bod pob unigolyn yn Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan weithgar mewn *Clwb Cymunedol* neu *Gyfleuster Hamdden/Diwylliannol*
- Bod pob plentyn yn Sir Gaerfyrddin yn dwlu ar weithgareddau Hamdden/Diwylliannol am oes

## Pam mae'n bwysig

- Gan fod ein ffordd o fyw yn newid, mae pobl yn byw'n hwy ac mae eu hansawdd bywyd yn well.
- Gan mai'r her yw atal salwch.
- Gan fod byw bywydau iach yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial, gwireddu eu dyheadau addysgol, a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.
- Gan fod llawer o'r gwasanaethau ataliol a'r ymyriadau sy'n ofynnol i gynnal iechyd, annibyniaeth a llesiant y tu allan i feysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

## Mesurau Llwyddiant

| | | Dim cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn ar gael | Dim cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn ar gael |
|---|---|---|---|
| **69%** o oedolion yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn<br>*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru* | **50%** o oedolion yn dweud bod ganddynt salwch hirdymor<br>*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru* | Sgôr llesiant meddwl oedolion o **50.2**<br>(Allan o uchafswm o 70)<br>*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru* | **8.2%**<br>o oedolion â **<2** o ymddygiadau ffordd o fyw iach<br>**6ed gorau** yng Nghymru<br>*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru* |

## Egluro'r Canlyniadau

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos bod:-

- **69%** o oedolion sy'n cymryd rhan wedi dweud bod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn.** Mae hwn ychydig yn llai na chanlyniadau'r llynedd sef 70% ond rydym dal yn y 14eg safle yng Nghymru.
- Mae nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan ac sydd â **salwch hirsefydlog** wedi gostwng ychydig yn ystod arolwg 2017/18 i 50% o gymharu â 53% yn yr arolwg blaenorol. Mae hyn wedi ein codi o'r 21ain safle i'r 16eg safle.
- Mae'r **sgôr llesiant meddwl** wedi'i seilio ar 14 o ddatganiadau wedi'u geirio mewn ffordd bositif a ofynnwyd fel rhan o arolwg sy'n cynrychioli rhinweddau cadarnhaol llesiant ac sy'n cwmpasu sut mae rhywun yn teimlo ac yn gweithredu, yn wahanol i salwch ac anhwylder meddwl ac mae'n addas i'w defnyddio yn y boblogaeth gyffredinol. Sgôr gyfartalog llesiant meddwl ar gyfer ymatebwyr Sir Gaerfyrddin oedd 50.2 o uchafswm o 70, mae hyn yn is na sgôr gyfartalog Cymru o 50.9 ac yn y 16eg safle.
- Mae gennym y canlyniad 6ed gorau yng Nghymru o ran nifer yr oedolion sydd â **llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw,** sef 8.2%. Mae'r ffigur hwn wedi'i gyhoeddi'n ffigur cyfunol ar gyfer 2017/16 a 2017/18 ac felly nid yw'n gymaradwy â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r canlyniad wedi'i seilio ar gyfuniad o beidio ag ysmygu; mynegai màs y corff (BMI) llai na 25; bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd; yfed 14 uned neu lai o alcohol yr wythnos a bod yn gorfforol egnïol am o leiaf 150 o funudau'r wythnos.

## Y Cynnydd a Wnaed

- Rydym wedi parhau i fonitro *ansawdd aer* (nitrogen deuocsid) ar gyfer trigolion ac ymwelwyr â'r Sir gan weithredu rhaglen samplu. Mae hyn yn cefnogi ymgynghoriad ar gyfer cynlluniau gweithredu yr Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer Llanelli a Chaerfyrddin yn ogystal â'r cynlluniau gweithredu presennol ar gyfer Llandeilo. Mae'r data wedi'i gipio o bob safle ac mae canlyniadau'n cael eu hasesu a'u riportio.
- Yn dilyn buddsoddi miliwn o bunnoedd i wella ein *canolfannau hamdden*, gan greu mwy o le a chyflwyno offer ffitrwydd newydd sbon hollol fodern, rydym wedi gweld cynnydd o 2.8% (48,000) yn nifer yr ymweliadau i 1,582,994 yn ystod 2017/18. Mae hyn hefyd wedi arwain at gynnydd o 23% mewn incwm (o £978k i £1.2m). Mae cwsmeriaid newydd a phresennol wedi croesawu'r effaith yn fawr a dengys yr arolwg boddhad gynnydd o 29% i 44%.
- Mae gennym weledigaeth wedi'i chynllunio i droi Sir Gaerfyrddin yn *'Ganolbwynt Beicio Cymru'*. Mae strategaeth feicio wedi cael ei llunio, ac mae'r rhain yn cynnwys Llwybr Beicio Dyffryn Tywi, Llwybr Arfordirol y Mileniwm, Cylchffordd Gaeedig Pen-bre a Llwybr Beicio Dyffryn Aman. Rhaid peidio ag anghofio am y Felodrom ym Mharc Caerfyrddin wrth gwrs, sydd wedi'i ailwampio'n ddiweddar; un o blith dau yn unig yng Nghymru.
- Atgyfeiriwyd 1,510 o bobl at y *Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff* yn ystod 2017/18, gyda 53.8% ohonynt yn ymgysylltu â'r cynllun a 45.6% wedi cwblhau'r rhaglen 16 wythnos.
- Mae ein timau iechyd meddwl, ein cydweithwyr hamdden a Rhedeg Cymru yn hyfforddi grŵp o unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl i gystadlu yn hanner marathon Abertawe a hefyd mewn 'park runs' lleol. Mae hwn yn brosiect arloesol i wella iechyd meddwl, llesiant ac iechyd corfforol unigolion. Mae hefyd yn cyfrannu at yr agenda gwrth-stigma gan fod staff a'r rheiny sy'n defnyddio gwasanaethau yn ymarfer gyda'i gilydd ac mae cyd-gynhyrchu yn nodwedd hanfodol o'r cynllun.

*"Mae'r cynllun wedi bod yn wych. Mae wedi trawsnewid fy mywyd yn llwyr, nid yn unig yn gorfforol ond yn emosiynol hefyd"*

### Chwaraeon a Hamdden – Newid Bywydau




Yn ôl ym mis Awst 2015, cafodd Dai ddyraniad rhydweli fertebrol (VAD) a arweiniodd at strôc coesyn yr ymennydd brin iawn sydd wedi newid ei fywyd. Atgyfeiriwyd Dai at y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) yn 2016 a 3 blynedd yn ddiweddarach mae'n dal i wneud gwelliannau sylweddol.

Dywedodd Dai "Mae'r cymorth a'r amynedd y mae Sam a gweddill y staff NERS wedi eu rhoi i mi heb eu hail. Mae gwella ar ôl strôc yn broses araf, ond rwy'n hapus iawn â'm gwelliannau sy'n parhau. Rwyf bellach yn gallu cerdded â ffon neu ffrâm gerdded sydd wedi rhoi rhywfaint o annibyniaeth yn ôl i mi yn hytrach na gorfod dibynnu ar rywun i'm helpu i fynd o A i B.

Rwy'n falch iawn fy mod i wedi cael fy atgyfeirio at y cynllun NERS. Mae mynd i'r gampfa a mynychu'r dosbarthiadau bellach yn rhan o'm bywyd ac rwyf wrth fy modd yn sgwrsio â'r aelodau eraill a chael hwyl yn y dosbarthiadau."

Mae buddsoddiad gwerth miliwn o bunnoedd yn ddiweddar yn ein cyfleusterau ffitrwydd ac iechyd yn dangos ein bwriad i barhau i gynnig, ac i wella, gwasanaethau sy'n gallu newid bywyd rhywun, fel y rhai gafodd Dai.



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

**Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths**

Cliciwch **yma i gael gweld ein cynnydd manwl** o ran yr amcan hwn.


Dechrau'n Dda
Byw'n Dda
Heneiddio'n Dda
Amgylchedd
Iach, Diogel
Llewyrchus

# Heneiddio'n Dda



# Amcan Llesiant 9
## Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

### Synnwyr o ganlyniadau'r arolwg cymunedol wedi gostwng 26% yn Sir Gaerfyrddin

***Yn gyffredinol yng Nghymru, mae canlyniadau wedi gostwng 12%***

Mae'r **'Ymdeimlad o Gymuned'** yn deillio o dri chwestiwn; *Mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol; Mae pobl yn yr ardal sy'n dod o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac mae pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch'.*




Gan Sir Gaerfyrddin y mae'r % newid 4ydd uchaf o flwyddyn i flwyddyn, ar ôl lleihau o 73% yn 2014-15 i 47.7% a symud i lawr o'r 5ed safle i'r 13eg safle.

## Pam mae'n bwysig

- Yn *Asesiad Llesiant 2017* Sir Gaerfyrddin tynnwyd sylw at undod cymunedol a chydlyniant fel pethau pwysig ar gyfer llesiant cadarnhaol. Hwn oedd y peth 3ydd pwysicaf i bobl.
- Mae unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn niweidiol i'n hiechyd, ac mae ymchwil yn dangos bod diffyg cyswllt cymdeithasol mor niweidiol i'n hiechyd ag ysmygu 15 o sigarennau'r dydd, a'i fod yn waeth i ni na ffactorau risg amlwg megis gordewdra ac anweithgarwch corfforol.
- Yn ogystal â chael effaith ar leihau'r risg o farwolaeth gynnar a salwch, mae cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol hefyd yn helpu unigolion i wella pan fyddant yn sâl.

## Mesur Llwyddiant

Dim cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn ar gael

**79%** o bobl yn teimlo'n ddiogel

7fed uchaf yng Nghymru

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*



## Egluro'r Canlyniadau

- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17, dywedodd 79% eu bod yn **teimlo'n ddiogel** yn eu cartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio ar drafnidiaeth leol wedi iddi dywyllu, a grwpiau oedran 65-74 oedd yn teimlo fwyaf diogel. Mae cwestiynau'r arolwg yn seiliedig ar ganfyddiad o droseddu.

## Y Cynnydd a Wnaed

*Mae* **Cydnerthu Cymunedol** *yn ffordd o ddisgrifio gallu cymunedau a'r unigolion sy'n eu creu, i fod yn gryfach a chael mwy o rym i helpu eu hunain i aros yn iach, yn gryf ac i gynnal eu llesiant - waeth beth fo'r amgylchiadau*

- Rydym wedi parhau i ddatblygu a gweithredu sut rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA), gan sicrhau eu bod yn hygyrch a hefyd mae hyn yn cysylltu â system genedlaethol 'Dewis', sy'n rhoi gwybodaeth neu gyngor ynghylch llesiant – neu os ydynt am wybod sut y gallant helpu rhywun arall. Aeth ein gwefan newydd ar gyfer y *Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd* yn 'fyw' ar 31 Mawrth 2018, ac mae'n gweithio ar ddyfeisiau symudol ac yn fwy rhyngweithiol.
- Mae'r cydgysylltwyr *Cydnerthu Cymunedol* yn parhau i weithio gyda'u cymunedau lleol i lywio ein dealltwriaeth o asedau yn y gymuned sy'n cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd, llesiant a lleihau unigrwydd. Mae mentrau cymunedau sy'n cefnogi dementia yn dal i gael eu cyflwyno ar draws y Sir. Rydym wedi cynnwys ar wefan Dewis yr asedau a'r adnoddau sydd ar gael i'r gymuned, ac mae 500 o sefydliadau wedi'u nodi ar hyn o bryd.
- Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni addewid Sir Gaerfyrddin o adsefydlu 60 o deuluoedd sydd wedi ffoi o Syria. Mae grŵp cymorth gwirfoddol *Syria Sir Gâr*, wedi cael ei sefydlu i roi cymorth anffurfiol i deuluoedd ffoaduriaid, ynghyd â chymorth a chyngor gan ein cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol.

Gweler hefyd Amcan Llesiant 10+11 ar gyfer sut rydym yn helpu pobl i aros yn eu cartrefi ac yn eu cymunedau, ac Amcan Llesiant 1 ynghylch gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd.

### Diogelu

- Sefydlu a hyrwyddo ymagwedd "busnes pawb" at ddiogelu yn Sir Gaerfyrddin drwy weithio gyda chydweithwyr awdurdod lleol ac asiantaethau partner.

### Diogelwch Cymunedol

- Mae menter partneriaeth newydd wedi'i rhoi ar waith i gefnogi unigolion a gedwir yn y ddalfa sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog.
- Cynhaliwyd digwyddiad allgymorth ymwybyddiaeth o alcohol yn Nhrostre, Llanelli ar 24 Chwefror mewn partneriaeth â Cyfle Cymru, Drug Aid a grwpiau cymorth Cam-drin Domestig, gan roi cyngor a mynediad i wasanaethau. Mae ymgyrch *Addewid Paul* yn dal i gael cymorth ac i godi ymwybyddiaeth o beryglon trais cysylltiedig ag alcohol.
- Cynhaliwyd ymweliadau gorfodi trwyddedu rhagweithiol ar y cyd drwy gydol y flwyddyn yn holl brif drefi Sir Gaerfyrddin gan swyddogion Trwyddedu y Cyngor a'r Heddlu. Mae'r ymweliadau hyn yn targedu safleoedd sy'n peri problem ac yn helpu i leihau achosion o drais sy'n gysylltiedig ag alcohol drwy wella diogelwch ac ymgysylltiad.
- Mae canran y troseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt wedi **cynyddu** yn sylweddol gan 16.8% ers 2017/18 (1,460 o droseddau ychwanegol), sef 10,137 o droseddau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod cyfraddau troseddu yn parhau i fod yn sylweddol is yn Sir Gaerfyrddin o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Mae lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi **lleihau** gan 14.3% dros y flwyddyn, cyfanswm nifer y achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt oedd 5,810 o gymharu â 6,780 yn 2016/17 – gostyngiad o 970 o achosion

***Prosiect Cymorth Sir Gaerfyrddin Unedig (CUSP)*** Drwy brosiectau megis CUSP a *Home from Hospital,* mae Sir Gaerfyrddin wedi hwyluso ystod o weithgareddau i ddatblygu cydnerthedd cymunedol, drwy helpu pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy neu ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain yn gynt ac yn ddiogel ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol
dros Ddiogelwch Cymunedol
**Y Cynghorydd Cefin Campbell**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 10

## Heneiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

**Rydym wedi lleihau nifer y derbyniadau i ofal preswyl hirdymor bron 5%** (o 1066 i 1016)
Ein Cynnig i'r Boblogaeth - *'Cymorth i Helpu eich Hun'* (Atal salwch neu anaf)
Hyrwyddo annibyniaeth, llesiant, ymgysylltu cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol.

## Pam mae'n bwysig

- Gan fod ymgyngoriadau wedi dangos mai'r hyn sy'n bwysig i unigolion yw gallu bod mor annibynnol ac iach â phosibl am gyn hired â phosibl.
- Gan fod y boblogaeth sy'n fregus yn cynyddu a bydd angen cymorth arnynt i fod mor annibynnol â phosibl.
- Gan ei bod yn hanfodol inni osod seiliau cadarn i ddiogelu at y dyfodol argaeledd gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant parhaus ac annibyniaeth ein poblogaeth hŷn sy'n fregus.

## Mesurau Llwyddiant

**47** o bobl wedi'u cadw yn yr ysbyty tra'n aros i gael gofal cymdeithasol
(**2.50** fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed)

(43 o'r blaen - 2.30 fesul 1,000 o'r boblogaeth)

**56.2%**
Cytuno bod gwasanaeth gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal
(53.1% o'r blaen)
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Ar gyfartaledd mae'n cymryd **161** o ddiwrnodau calendr i ni gyflawni *Grant Cyfleusterau i'r Anabl*
(167 diwrnod o'r blaen)

## Egluro'r Canlyniadau

- 47 o gleientiaid (75+ oed) wedi eu **cadw yn yr ysbyty** yn ystod 2017/18 tra'n aros i gael gofal cymdeithasol, sef cynnydd bach ar y flwyddyn flaenorol o 43. Digwyddodd y dirywiad yn bennaf ym mis Ionawr o achos gwasgfeydd y gaeaf, y tywydd garw, a'r farchnad gofal cartref yn cael ei rhoi mewn perygl gan fod un darparwr wedi rhoi'r gorau i ddarparu gofal cartref yn ardal Llanelli. Bydd ein Tîm Comisiynu yn parhau i weithio'n agos iawn gyda darparwyr eraill ar draws y Sir i ysgogi a chefnogi'r farchnad gofal cartref ac i fonitro'r galw er mwyn sicrhau gwytnwch y farchnad.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016/17, roedd 56.2% o'r rhai a holwyd yn cytuno bod **gwasanaeth gofal cymdeithasol da ar gael** yn eu hardal, mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 56.8% ond yn welliant ar y flwyddyn flaenorol sef 53.1%. Mae hyn yn ein rhoi yn y **15**$^{\text{fed}}$ safle yng Nghymru o gymharu â'r 12$^{\text{fed}}$ safle y flwyddyn flaenorol.
- Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i ddarparu addasiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn ac ar hyn o bryd ni yw'r 2$^{\text{il}}$ orau yng Nghymru.



## Y Cynnydd a Wnaed

- Rydym wedi datblygu **cynllun presgripsiynau cymdeithasol** arloesol mewn partneriaeth â Meddygon Teulu lle mae credydau amser yn cael eu rhagnodi i gleifion fel y gallant fynd i ddigwyddiadau a sesiynau grwpiau cymunedol. Mae Credydau Amser yn gweithio yn syml iawn: am bob awr y mae unigolyn yn cyfrannu at ei gymuned neu wasanaeth, mae'n ennill un Credyd Amser. Gellir gwario'r Credyd Amser hwn yn manteisio ar awr o weithgarwch a ddarperir gan sefydliad sy'n rhan o'r cynllun megis sinema neu theatr. Y llynedd, ledled y sir roedd gan Fanc Amser Sir Gaerfyrddin 1,659 o aelodau.
- Yn ôl arolwg Gofal Cymdeithasol 2017/18, roedd **86.8%** o gleientiaid yn fodlon ar eu gofal a'u cymorth, ac mae hwn yn *welliant* o gymharu ag 83.2% yn 2017/18.
- Cynhaliwyd digwyddiad *'Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig'* yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar Ddiwrnod Cenedlaethol Caredigrwydd i gynyddu ymwybyddiaeth o fanteision caredigrwydd i unigolion. Daeth dros 500 o drigolion Sir Gaerfyrddin i'r digwyddiad, a gafodd sylw ar Radio Wales.
- Rydym wedi llwyddo i roi **Prosiect Cymorth Unedig Sir Gaerfyrddin** ar waith yn llwyddiannus ac wedi cael ein nodi fel Menter Enghreifftiol yng Nghymru drwy Gomisiwn Bevan. Cynllun gan y trydydd sector yw hwn sy'n helpu pobl yn y gymuned i aros yn annibynnol am cyn hired â phosibl.
- Mae'r *Gwasanaeth Cynghori a Chydgysylltu ynghylch Trosglwyddo Gofal* (TOCALS) wedi ehangu yn Ysbyty Glangwili ac Ysbyty'r Tywysog Phillip i gynnwys Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol, Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys a Ffisiotherapyddion sy'n sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau'n brydlon o ysbytai.
- Mae *Bywydau Bodlon* yn wasanaeth tymor hir sy'n cefnogi pobl sy'n byw â dementia, mae'n rhoi gweithiwr allweddol i unigolion sy'n helpu pobl i fyw eu bywyd mor llawn â phosibl wrth i'w dementia ddatblygu. Mae'r pwyslais ar gael yr unigolyn i gyfeirio'r cymorth sydd ei angen arno er mwyn bod mor annibynnol â phosibl.

Mae canlyniadau ***prosiect peilot Bywydau Bodlon*** wedi bod yn galonogol hyd yn hyn ac mae llawer o unigolion a'u teuluoedd wedi gwneud sylwadau cadarnhaol:

Merch - *"Mae dad yn dod nôl â gwên ar ei wyneb, felly mae ganddo rywbeth i siarad amdano wrth y ford fwyd bob nos. Mae dad a'r teulu yn mwynhau profiadau newydd a mwy o gyfleoedd; rydym wedi teithio i Donnington a Swydd Gaerlŷr yn sgil y prosiect. Yn ogystal â dysgu am y gorffennol, rydym yn creu atgofion newydd i'w trysori yn y dyfodol"*



Merch – *"Mae mam wir yn mwynhau mynd allan gyda'r gweithiwr allweddol. Mae mam bellach yn mynd i sesiwn gwau...ond cloncan maen nhw'n bennaf!"*

Defnyddiwr Gwasanaeth - *roedd y gwasanaeth wedi gwneud gwahaniaeth "fe wnaeth fy nghadw mewn cysylltiad â phobl o'r tu allan" "rwy'n dwlu bod yng nghwmni llawer o bobl".*



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd
**Y Cynghorydd Jane Tremlett**

Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 11

## Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

**65% yn cytuno eu bod yn byw mewn cymuned oed gyfeillgar**

Roeddem wedi cynnal Arolwg Fforwm 50+ yn 2017 ac wedi gofyn yn benodol gwestiynau am y 5 blaenoriaeth yn y Cynllun Heneiddio'n Dda a chafwyd cyfanswm o 400 o ymatebion. Dangosodd yr ymgynghoriad hefyd fod 65% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf/cytuno eu bod yn byw mewn cymuned oed gyfeillgar.

## Pam mae'n bwysig

- Rhaid hyrwyddo *hawliau pobl hŷn* a'u diogelu fel y gallant fyw'n rhydd rhag camdriniaeth, esgeulustod, rhagfarn oed, a gwahaniaethu a chyfrannu'n llawn yn eu cymunedau a ffynnu wrth heneiddio.
- Er mwyn cefnogi'n llawn *'Datganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau sy'n Oed Gyfeillgar yn Ewrop, 2013'* a'n hymrwymiad i gyrraedd disgwyliadau'r Datganiad, o fewn ein hymagwedd leol at raglen *Heneiddio'n Dda yng Nghymru* drwy'r amcan llesiant hwn.
- Gall gwasanaethau ehangach wneud cyfraniad pwysig i gefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn a lleihau'r galw ar Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd.
- Mewn cyfarfod ym mis Mawrth 2018, bu i'r *Comisiynydd Pobl Hŷn* ganmol cynnwys Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin fel Amcan Llesiant.

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

## Mesur Llwyddiant

**16.6%** o bobl yn unig

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*



## Egluro'r Canlyniadau

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18, roedd **16.6%** o'r oedolion gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin yn **ystyried eu bod yn unig,** ac mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 16.3% ond mae wedi gostwng ers canlyniad y flwyddyn flaenorol o 17.1% ac rydym dal yn y 10fed safle.
Noder bod y canlyniad arolwg hwn ar gyfer yr holl oedolion oedd yn cymryd rhan ac nid yr henoed yn unig.

## Y Cynnydd a Wnaed

**Y 5 amcan sy'n flaenoriaeth yn ein *Cynllun Heneiddio'n Dda 2015-18***

**1. CYMUNEDAU OED GYFEILLGAR**

- Roedd dros hanner (65%) y rhai oedd wedi ymateb i Ymgynghoriad y *Fforwm 50+* yn cytuno'n gryf/cytuno eu bod nhw'n byw mewn cymuned oed gyfeillgar.
- Rydym yn parhau i gryfhau'r cysylltiadau â'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan ddatblygu *gwasanaeth trafnidiaeth gymunedol* a *chyfleoedd mynediad* i gael apwyntiadau iechyd.
- Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag *Age Cymru* er mwyn rhoi cymorth ag ailgylchu cyffredinol i bobl oedrannus, pobl anabl a phobl eiddil.

## 2. Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia

- Ychydig iawn oedd yn cytuno bod Sir Gaerfyrddin yn gymuned sy'n cefnogi dementia.
- Mae grŵp cyflawni rhanbarthol wedi'i sefydlu i weithredu'r camau yn y Cynllun Dementia Rhanbarthol *'Mwy na cholli'r cof yn unig'*.
- Rydym yn gwneud cynnydd sylweddol i wneud Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n cefnogi pobl â dementia, fel bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, ac yn teimlo'n fwy diogel yn eu cymunedau. Rydym wedi recriwtio 4,847 o gyfeillion dementia a 57 o *hyrwyddwyr dementia*.

## 3. Atal Codymau

- Roedd y *Fforwm 50+* yn cytuno bod y Cyngor yn defnyddio'r math iawn o gamau i helpu i atal codymau.
- Mae amrywiaeth o ymyriadau gweithgarwch corfforol wedi'u targedu gennym ar waith drwy gydol cwrs bywyd i gynyddu lefelau gweithgarwch y rhai nad ydynt yn egnïol neu y mae perygl na fyddant yn egnïol. Enghraifft o hyn yw *'Hoci Cerdded'* fel ffordd o ailymgysylltu ag oedolion o bob oed, yn cynnwys oedolion hŷn, sy'n gyn-chwaraewyr hoci.
- Rydym wedi treialu *Prosiect Atal Codymau* i leihau nifer yr achosion o faglu, llithro a syrthio yn y cartref drwy sesiynau cryfder a chydbwysedd. Bydd hyn yn lleihau nifer yr oriau gofal yn y cartref ac yn gwella annibyniaeth a chynyddu hyder wrth leihau'r ofn o gwympo.

## 4. Cyfleoedd i gael Gwaith a Sgiliau Newydd

- Yn gyffredinol, cytunodd y *Fforwm 50+* fod y Cyngor yn gwneud y pethau cywir i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gael swyddi a sgiliau newydd.
- 152 o *sesiynau dosbarth cyfrifiadur* wedi digwydd eleni gyda chyfanswm o 1,150 yn bresennol. Darperir cyrsiau gan sefydliadau cymunedol a'r llyfrgell.

## 5. Unigrwydd ac Arwahanrwydd

- Yn yr *arolwg 50+,* ar y cyfan roedd pobl yn gryf o'r farn bod y Cyngor yn gwneud popeth y gallwn i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Rydym wedi sicrhau bod yr holl breswylwyr tai gwarchod yn parhau i elwa ar *ddarpariaeth Wi-Fi, a hyfforddiant TG.* Mae Wi-Fi wedi cael ei osod ac mae ar gael i breswylwyr ei ddefnyddio ym mhob lolfa gymunedol ac rydym yn parhau i gynorthwyo tenantiaid sy'n dymuno gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau TG.

### SEFYDLU GRŴP GWEITHREDU I HELPU POBL SYDD Â DEMENTIA

Mae preswylwyr yn Nhalacharn, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf yn cael eu hannog i fod yn Ffrind Dementia ac i helpu'r rheiny sy'n byw gyda'r cyflwr yn eu cymunedau.

Gall Ffrind Dementia wneud gwahaniaeth mawr boed yn helpu rhywun i ddod o hyd i'r bws cywir neu'n rhannu'r neges ynghylch dementia ar y cyfryngau cymdeithasol neu yn y gymuned. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Heddlu Dyfed-Powys ynghyd â meddygfeydd teulu lleol a grwpiau gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cefnogi menter Ffrindiau Dementia'r Gymdeithas Alzheimer gyda'r nod yn y pendraw o gofrestru'r ardaloedd uchod gyda'r gymdeithas fel cymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia.







Aelodau'r Bwrdd Gweithredol dros Dai: **Y Cynghorydd Linda Evans a** Gofal Cymdeithasol ac Iechyd: **Y Cynghorydd Jane Tremlett**

Cliciwch **yma i gael gweld ein cynnydd manwl** o ran yr amcan hwn


Dechrau'n Dda
Byw'n Dda
Heneiddio'n Dda
Amgylchedd
Iach, Diogel
Llewyrchus

# Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus



# Amcan Llesiant 12
## Amgylchedd Iach a Diogel -
## Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

**Rydym yn gwella ein hamgylchedd drwy wella bioamrywiaeth a defnyddio ynni adnewyddadwy yn ein hadeiladau**

Rydym wedi cyflawni prosiectau cynaliadwy sy'n diogelu ein hamgylchedd ac yn ei wella. Mae'r cynefin a reolir ar gyfer britheg y gors a 300 hectar o warchodfeydd natur lleol ill dau yn brosiectau sy'n cyfrannu at gynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae technoleg ynni adnewyddadwy yn cael ei defnyddio mwyfwy yn ein hadeiladau ac mae'n rhan annatod o'n holl adeiladau newydd. Mae ein Cynllun Rheoli Llifogydd a'r Cynllun Rheoli Traethlin yn caniatáu i'r Awdurdod gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy wneud Cymru'n fwy cydnerth, ac, yn sgil hynny, yn fwy llewyrchus. Ar hyn o bryd rydym yn cyrraedd ein targedau ar gyfer 2019/20.

## Pam mae'n bwysig

- Mae'r *Amgylchedd Naturiol* yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt *gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cryfder ecosystemau*.
- Mae gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn hanfodol yn ein hymateb i newid yn yr hinsawdd a gwasanaethau ecosystem allweddol megis bwyd, rheoli llifogydd, llygredd, dŵr ac aer glân.
- Mae 60% o bobl y sir yn byw mewn ardaloedd gwledig ac mae'r 40% arall yn byw o fewn 400 metr i lecyn gwyrdd naturiol neu led naturiol.
- Roedd yr arolwg *Asesiad Anghenion Llesiant* wedi clustnodi perthynas gref rhwng llesiant pobl a'r amgylchedd o'u hamgylch, o ddarparu cyfleoedd hamdden i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant.
- Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus, o dan nod '*Cymru Gydnerth*' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bennu amcanion i gyflawni '*amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol*' - rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun yr holl nodau sy'n cael eu hintegreiddio (mae bioamrywiaeth yn cyfrannu at ein heconomi, iechyd a'n llesiant).

## Mesurau Llwyddiant

| | |
|---|---|
| Defnyddiwyd **937,330 kWh** o ynni adnewyddadwy gennym yn ystod 2017/18 (wedi cynyddu o 670,400 kWh yn y flwyddyn flaenorol) | Ein cyfradd ailgylchu yw **64.80%** (Mae hyn yn llai na ffigur y flwyddyn flaenorol o 66.23%, ond rydym yn parhau i gyrraedd ein targed) |

## Egluro'r Canlyniadau

- **Ynni adnewyddadwy** – Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein systemau solar ffotofoltäig ar ein hadeiladau annomestig â chyfanswm capasiti gosodedig o 1.15 MWp. Mae hyn wedi creu dros 937,000 kWh o drydan yn ystod 2017/18, sef cynnydd ar y flwyddyn flaenorol o 670,400 kWh.

- **Ailgylchu** wedi gostwng ychydig yn 2017/18 i 64.80% o 66.23% y flwyddyn flaenorol. Mae'r dirywiad bach hwn yn bennaf o ganlyniad i anawsterau â'r mannau tanwydd sy'n deillio o sbwriel. Fodd bynnag rydym wedi cyrraedd ein targed o 64% ar gyfer eleni.

## Y Cynnydd a Wnaed

- Rydym yn parhau i gyrraedd ein targedau ar gyfer *rheoli gwastraff ac ailgylchu* er gwaethaf amodau heriol yn 2017/18 pryd y gwelwyd newidiadau mawr yn y marchnadoedd gwastraff gweddilliol. Mae'r gwaharddiad gan Tsieina ar fewnforio papur a phlastig wedi effeithio'n sylweddol ar brisiau nwyddau, ond nid cymaint â hynny ar berfformiad ailgylchu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r farchnad gwastraff gweddilliol (lle caiff gwastraff nad oes modd ei ailgylchu ei gludo i Ewrop, i adfer gwres sy'n gallu cyfrif yn erbyn targedau ailgylchu) wedi bod yn anodd ac mae dirywiad wedi bod yn y perfformiad ailgylchu ar gyfer 17/18 o gymharu â 16/17. Y ffigurau perfformiad ailgylchu cyffredinol presennol ar gyfer 2017/18 yw 64.80%, sy'n golygu ein bod dal ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed ailgylchu statudol ar gyfer 19/20. Yn yr un modd, rydym yn parhau i gyrraedd ein targedau ar gyfer dargyfeirio i safleoedd tirlenwi.
- Cyflawnwyd cynllun llifogydd gwaith cyfalaf cwlfer *Dwynant* ym Mhorth Tywyn. Mae'r prosiect hwn yn ceisio rheoli'r risg llifogydd yn achos 5 eiddo oedd wedi dioddef yn sgil llifogydd sawl gwaith yn y blynyddoedd diwethaf, ond heb effeithio ar eu gallu i gyrraedd eu tai dros eu pontydd preifat.
- Rydym wedi cyflawni *prosiectau cynaliadwy sydd â nifer o fanteision.* Enghraifft o hyn yw'r gwaith tuag at ddarparu a rheoli cynefin addas i fritheg y gors drwy Ardal Cadwraeth Arbennig *Caeau Mynydd Mawr,* sy'n ymrwymiad prosiect parhaus a gafodd Wobr Canmoliaeth Uchel gan RTPI Cymru ym mis Tachwedd 2017. Enillodd y prosiect y wobr hon oherwydd ei fod yn cydlynu datrysiad strwythuredig ar gyfer datblygiadau o fewn yr ardal twf economaidd, gan weithredu'r camau lliniaru sy'n ofynnol a sicrhau bod pob datblygiad yn unol â'r ddeddfwriaeth.
- Yn 2017/18 ar draws y **Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLL)**: • 18 erw o rafnwydden y môr wedi'u rheoli • 5 ymweliad gan ysgolion â Gwarchodfeydd Natur Lleol • 11 o deithiau tywys wedi'u cynnal • 5 digwyddiad cyhoeddus yn ystod Wythnos Bioamrywiaeth Cymru ar Warchodfeydd Natur Lleol •Rheolir tua 300 hectar o dir ar hyn o bryd fel Gwarchodfeydd Natur Lleol – Twyni Pen-bre, Pwll Lludw, Lagŵn y Pwll, Twyni Tywod Doc y Gogledd, a Gwarchodfeydd Natur Lleol Morfa Berwig.
- **Gwaith Bioamrywiaeth** arall: • Datblygwyd tua 100 cilometr o lwybrau beicio i gysylltu'r safleoedd ym Mhrosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin. • 5 o byllau a phantiau wedi'u creu'r tu allan i Ganolfan Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir
- Gwaith coetir **Coed Cymru**: 69 o ymweliadau ymgynghorol wedi eu gwneud yn cynnwys cyngor ar gynlluniau Glastir, cynlluniau plannu Coed Cadw, trwyddedau cwympo coed a rheoli coed ar safleoedd Cyngor Sir Caerfyrddin. • Cafodd 15 o gynlluniau rheoli coetiroedd eu cynhyrchu - Creu Coetir Glastir, Grantiau Bach Glastir, a chynllun 'Morewoods' Coed Cadw.

**Gwarchodfeydd Natur Lleol Sir Gaerfyrddin**



Yn ogystal â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau pwysig, gall Gwarchodfeydd Natur Lleol fod yn safleoedd sy'n helpu i gynyddu ymwybyddiaeth pobl o'u hamgylchedd lleol. Maent yn lleoedd lle gall pobl ddysgu am Natur a bod yn egnïol, ac yn aml maent mewn ardaloedd trefol neu ger ardaloedd o'r fath. Rydym ar hyn o bryd yn berchen ac yn rheoli pedair Gwarchodfa Natur Leol. Efallai fod y safleoedd hyn yn gymharol fach, ond gallant gefnogi'n naturiol lawer o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gyfrannu at gydnerthedd amgylcheddol, iechyd a llesiant ac at sut mae cymunedau'n gwerthfawrogi eu hardal leol. Mae'r gwaith a wneir gan ein Parcmon Cadwraeth ar y gwarchodfeydd hyn yn dangos cynifer o fanteision sy'n perthyn iddynt.

Mae gwaith gyda phartneriaid wedi dechrau, a fydd yn datblygu'r cysyniad o ragnodi cadarnhaol a hyrwyddo'r manteision iechyd a llesiant y gall y safleoedd hyn eu darparu i bobl leol. Mae gwirfoddolwyr lleol yn helpu â'r gwaith rheoli a chafodd 72 o ddiwrnodau gweithgarwch gan wirfoddolwyr cadwraeth eu trefnu y llynedd ar y Gwarchodfeydd Natur Lleol, pan ddaeth pobl leol a grwpiau megis Mencap Cymru yno. Roedd ymweliadau gan ysgolion yn caniatáu i blant ddarganfod mwy am Natur ar drothwy'r drws ac roedd teithiau tywys yn annog pobl i fwrw golwg fanylach ar y safleoedd hyn ac i weld yr amrywiaeth o fywyd gwyllt sydd yno. Yn ogystal gall safleoedd helpu i liniaru effaith llifogydd lleol - mae gwaith gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar y ffosydd ym Morfa Berwig wedi cyfrannu at y gwaith ehangach yn ardal Llanelli i reoli llifogydd lleol. Mae llawer mwy i'w wneud yn ystod y blynyddoedd nesaf i wireddu llawn botensial y safleoedd lleol pwysig hyn.



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd:
**Y Cynghorydd Philip Hughes**

Cliciwch [yma i gael gweld ein cynnydd manwl](#) o ran yr amcan hwn.

**Rydym yn gwella seilwaith ffyrdd y sir, trafnidiaeth wledig a thrafnidiaeth gynaliadwy**

Mae ein gwasanaethau cysylltiedig â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd yn hwyluso symud nwyddau a phobl yn ddiogel. Galluogi mynediad at nwyddau crai a marchnadoedd yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer Pobl i gael mynediad at gyflogaeth, addysg, iechyd, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol. Rydym wedi parhau i ddatblygu teithio cynaliadwy drwy fuddsoddi mewn llwybrau a rennir a llwybrau beicio, gwella'r seilwaith ffyrdd i hybu gweithgarwch economaidd yn y sir, a chynnal gwasanaeth bysiau gwledig drwy ein gwasanaeth Bwcabus a cheir cefn gwlad.

## Pam mae'n bwysig

- Mae gan *drafnidiaeth a phriffyrdd* rôl allweddol o ran cynnal ein cymunedau. Mae economi fodern, lwyddiannus yn dibynnu ar symud pobl a nwyddau yn effeithlon, gan roi cyfleoedd i bobl gael mynediad at gyflogaeth, addysg, iechyd, hamdden, a gwasanaethau cymdeithasol ac adwerthu.
- *Bod yn unedig a chysylltiedig yw un o bedwar amcan Llywodraeth Cymru yn ei gynllun 'Symud Cymru Ymlaen'*. Gall darparu mynediad integredig a fforddiadwy i fusnesau, i drigolion y sir, ac i ymwelwyr ysgogi datblygiad economaidd, lleihad mewn amddifadedd ac allgau cymdeithasol, a chynnydd mewn llesiant.
- Bydd cynnal mynediad at wasanaethau yn rhoi bod i welliannau mewn iechyd a llesiant ar gyfer pob rhan o'r gymuned e.e. sy'n cynnwys: cerdded, beicio, trafnidiaeth teithwyr a ffyrdd.
- Bydd De-orllewin Cymru yn Ddinas-ranbarth hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig erbyn 2030.

## Mesurau Llwyddiant

**Ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael**



**4.1%** o'n rhai Dosbarth **A**
(Gwelliant bach o 4.3% yn 16/17)

**3.1%** o'n rhai Dosbarth **B**
(Gwelliant bach o3.5% yn 16/17)

**11.9%** o'n rhai Dosbarth **C**
(Gostyngiad bach o 11.6% yn 16/17)

Mae nifer yr anafusion ar ein ffyrdd wedi gostwng a chafodd **83** o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd
(*102 yn 2016*)



*Ffynhonnell: Stats Cymru*

## Egluro'r Canlyniadau

- Roedd canran y prif ffyrdd (A) a'r ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) oedd mewn cyflwr gwael yn Sir Gaerfyrddin wedi *lleihau* yn ystod 2017/18; ffyrdd (A) o 4.3% i 4.1% a ffyrdd (B) o 3.5% i 3.1%. Bu *ychydig o gynnydd* o ran dirywiad ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) o 11.6% i 11.9%, ac mae hyn yn cyfrannu at *gynyddu'r* cyfuniad o ffyrdd A, B ac C sydd mewn cyflwr gwael o 9.3% i 9.2% yn 2016-17.
- **Cyfanswm o 83 o bobl wedi eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol** ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2017**,** mae hwn yn ostyngiad o gymharu â 102 yn 2016. Mae hyn yn cynnwys **19 o feicwyr modur** (gostyngiad o 33 yn 2016) a **24 o bobl ifanc 16-24 oed** (cynnydd o 19 yn 2016). Mae Uned Diogelwch Ffyrdd y Cyngor wedi gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o asiantaethau diogelwch y cyhoedd i gyflwyno Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Sir Gaerfyrddin gydag ystod o fentrau addysg, peirianneg a gorfodi.

## Y Cynnydd a Wnaed

- Rydym wedi cychwyn ar gam 2 ffordd gyswllt strategol Cross Hands, a ddyluniwyd yn fewnol, i gefnogi adfywio economaidd, ac wedi gwella'r *seilwaith priffyrdd* yn Rhydaman i wella llif y traffig ac i leihau tagfeydd. Rydym wedi llwyddo wrth lobïo Llywodraeth Cymru i gychwyn ar waith i fwrw ymlaen â chynllun ffordd osgoi Llandeilo a'n prosiect uchelgeisiol, *Llwybr Dyffryn Tywi* a fydd yn cysylltu Llandeilo â Chaerfyrddin.
- Hefyd rydym wedi parhau i fod yn gysylltiedig â threfniadau *cydweithio a gweithio mewn partneriaeth* er mwyn cynnal mentrau addysg ynghylch diogelwch ffyrdd ac er mwyn clustnodi safleoedd ar gyfer gwaith gorfodi ac ymyriadau peirianegol. Rydym wedi *buddsoddi mewn diogelwch ar y ffyrdd* drwy ariannu rhaglenni addysg diogelwch ar y ffyrdd a chynlluniau peirianneg, yn cynnwys cynlluniau trin llwybrau gwledig a therfynau cyflymder o 20mya y tu allan i ysgolion. Hyd yn hyn, cyflwynwyd gwelliannau o'r fath y tu allan i safleoedd 55 ysgol ar draws y sir. Yn ogystal, rydym wedi cyflawni ein rhaglen hyfforddiant Diogelwch ar y Ffyrdd ac wedi ymgysylltu â defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed, gan gynnwys hyfforddi gyrwyr hŷn, gyrwyr ifanc, beicwyr modur a phobl ifanc.
- Rydym wedi parhau â'n buddsoddiad mewn *cerbydau newydd* yn ystod y flwyddyn, yn unol â'n rhaglen adnewyddu'r fflyd strategol.
- Rydym wedi cyflawni Prosiectau *Llwybrau Diogel i'r Ysgol* yn llwyddiannus ym Mhontyberem a Chaerfyrddin, ac wedi buddsoddi £445,500 mewn gwaith trin llwybrau rheoli traffig i wella'r seilwaith yn y Bryn, Llangennech, Penygroes a Thycroes.
- Byddwn yn dechrau adeiladu *Llwybr Beicio Dyffryn Tywi* ac yn parhau i ddatblygu'r cynllun llawn. Rydym wedi adeiladu tua 3.7 cilometr o lwybrau beicio / defnydd a rennir y flwyddyn hon ledled y sir i gynnal teithio cynaliadwy a llesol.

### LLWYBR BEICIO



Mae cynigion i greu llwybr cerdded a beicio 16 milltir rhwng Caerfyrddin a Llandeilo gam yn agosach diolch i hwb ariannol.
Mae prosiect Llwybr Dyffryn Tywi wedi cael grant o £132,000 drwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru , sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Bydd yr arian yn mynd tuag at ddatblygu rhan o'r llwybr yn Nantgaredig.
Bydd Llwybr Dyffryn Tywi yn dilyn llwybr yr hen reilffordd rhwng Caerfyrddin a Llandeilo cyhyd ag sy'n bosibl, yn agos at afon Tywi, a disgwylir y bydd hyn yn hybu twristiaeth a'r economi leol, yn ogystal ag annog pobl i fod yn egnïol ac i deithio'n gynaliadwy. Mae'r llwybr yn cael ei ddatblygu fesul cam, gyda thrafodaethau â'r tirfeddianwyr yn parhau a ffynonellau cyllid yn cael eu nodi wrth i'r cynllun ddatblygu. Disgwylir y bydd yn costio rhwng £5 ac £8 miliwn i gyd; mae hefyd yn cael ei ariannu'n rhannol drwy Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru.
Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei sicrhau ar gyfer cam gorllewinol y llwybr rhwng Felin-wen a Nantgaredig, ac mae rhan o'r llwybr ar y gerbytffordd bresennol rhwng Fronun a Bwlch Bach, ger y gwaith concrit yn Abergwili, wedi'i gwblhau.



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd
**Y Cynghorydd Hazel Evans**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

# Amcan Llesiant 14
## Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant

### Cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Mae cyfathrebu mewnol ac ystod o adnoddau a chanllawiau i gefnogi staff wedi bod yn allweddol i hyn. Mae Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg wedi esgor ar gyfleoedd newydd i weithio gyda phartneriaid allanol ym mhob rhan o'r sir ac i sicrhau bod adnoddau dynol ac ariannol yn cael eu defnyddio'n gyfrifol. Cydnabyddir bod Sir Gaerfyrddin yn bwysig yn strategol o ran ffyniant yr iaith ledled Cymru.

## Pam mae'n bwysig

- Mae Sir Gaerfyrddin yn *gadarnle* ar gyfer y Gymraeg ac ystyrir bod y sir o bwysigrwydd strategol mawr i ddyfodol yr iaith.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *strategaeth newydd* i geisio sicrhau dyfodol cadarn i'r iaith Gymraeg. Gan gydnabod bod yr iaith yn drysor cenedlaethol, mae'r Llywodraeth yn bwriadu dyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Yn ogystal, maent eisiau sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw.
- Mae'n *bwynt gwerthu unigryw.* Mae diwydiannau twristiaeth a lletygarwch ledled Ewrop bellach yn sylweddoli pwysigrwydd cynnig profiadau unigryw. Mae cael dwy iaith a synnwyr o hanes a diwylliant Cymru yn golygu bod Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa gref.

## Mesurau Llwyddiant

**43.6%** o'n pobl yn gallu siarad Cymraeg

Cymraeg

(I fyny o'r canlyniad blaenorol sef 40.1%)

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*
*(maint sampl 600)*

**55%** o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi derbyn asesiad athro yn y Gymraeg

(I lawr o'r canlyniad blaenorol o 56.8%)

Parhau i fod y **4ydd uchaf yng Nghymru**

*Ffynhonnell: Stats Cymru*

% y bobl wnaeth ymweld â: Digwyddiadau'r Celfyddydau/Lleoedd Hanesyddol/Amgueddfeydd

| 67.4% | 64.7% | 34.6% |
|---|---|---|
| I lawr o'r flwyddyn flaenorol sef 69.3% | I fyny o'r flwyddyn flaenorol sef 63.8% | I lawr o'r flwyddyn flaenorol sef 36% |

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

## Egluro'r Canlyniadau

- Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18 yn dangos bod 43.6% yn gallu siarad Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, sy'n gynnydd ar ganran y flwyddyn flaenorol sef 40.1%.
- Rhaid i bob dysgwr yn ei flwyddyn olaf yn y Cyfnod Sylfaen gael ei asesu drwy asesiadau athro. Derbyniodd 55% o'n disgyblion Cyfnod Sylfaen asesiad athro yn Gymraeg, a oedd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol, er bod gennym y nifer 4ydd uchaf yng Nghymru o hyd.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru roedd nifer y cyfranogwyr at yr arolwg wnaeth fynychu digwyddiad ym myd y celfyddydau ac ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn ystod 2017/18 wedi gostwng ychydig sef 67.4% a 34.6%, ac mae'r rhain yn is na ffigurau cyfartalog Cymru o 68% a 40.4%. Roedd y nifer oedd wedi ymweld â safleoedd treftadaeth wedi cynyddu ychydig i 64.7%, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 63.4%. Noder bod y cwestiynau'n gofyn a oeddent wedi bod yn y safleoedd hyn yng Nghymru, ac nid yn Sir Gaerfyrddin o reidrwydd.

## Y Cynnydd a Wnaed

**HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG**

- Roedd Adroddiad Blynyddol 2016/17 i Gomisiynydd y Gymraeg wedi nodi'r camau a gymerwyd i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Gwnaed gwaith hyrwyddo gyda *Fforwm Trefnwyr Digwyddiadau'r Sir* i gyfleu pwysigrwydd defnyddio'r iaith Gymraeg wrth drefnu digwyddiadau cymunedol.
- Trefnwyd clwb newydd ar gyfer dysgwyr, mewn partneriaeth â Menter Gorllewin Sir Gâr, yn Yr Atom yng Nghaerfyrddin, er mwyn dod â dysgwyr at ei gilydd.
- Er mwyn dechrau cynyddu ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd yn y sir, mae llyfryn cynhwysfawr sy'n hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg ac sy'n amlygu'r llwybr tuag at ddwyieithrwydd, wedi'i ddylunio a'i argraffu. Mae'r gwaith hwn yn deillio o'r Fforwm Sirol a bu i'r holl bartneriaid gyfrannu at gynnwys y llyfryn.
- Mae *Fforwm Iaith Gymraeg Strategol* y sir yn gweithio i farchnata a hyrwyddo'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal i hyrwyddo'r iaith ac mae'n gysylltiedig â gwefan *Darganfod Sir Gâr,* sydd newydd gael ei diweddaru. Mae'r Fforwm yn arwain ar baratoi 'Pecyn Gwybodaeth' i unigolion / teuluoedd sy'n symud i Sir Gaerfyrddin a fydd yn darparu'r cyd-destun ieithyddol a'r cyfleoedd ar gyfer addysg ddwyieithog.

**HYRWYDDO DIWYLLIANT CYMRU A THWRISTIAETH**

- Rydym wedi datblygu prosiect 'Stordy Digidol' i ehangu mynediad i wasanaethau diwylliannol a chasgliadau ein sir. Mae seilwaith y wefan bellach wedi'i gwblhau ac mae cynnwys y llyfrgell o ryw 770 o ddelweddau wedi'u llwytho'n barod, a bydd cynnwys o amgueddfeydd ac archifau yn dilyn hyn. Yr amcan yn yr ail gam yw tagio a chysylltu casgliadau drwy storïau.
- Lansio *'Makerspace'* yn Llyfrgell Rhydaman, sef man gwaith ar y cyd i wneud, dysgu, ymchwilio a rhannu. Mae'n defnyddio offer uwch-dechnoleg ac yn agored i blant, oedolion ac entrepreneuriaid, a hwn yw'r lle cyntaf o'i fath yng Nghymru a bydd yn ysgogi creadigrwydd ac arloesedd.
- Mae twristiaeth yn cyfrannu tua £370 miliwn i'n heconomi. Mae hyn 2.7% yn uwch na'r llynedd, gyda nifer yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yn cynyddu 3.6%. Yn ddiweddar, enwyd *Caerfyrddin* a *Llandeilo* ymysg y 10 lle gorau i fyw yng Nghymru, yn ôl y Sunday Times. Mae Sir Gaerfyrddin yn prysur ddod yn un o'r siroedd mwyaf poblogaidd yng Nghymru gan ymwelwyr,
- Er mwyn tynnu cymaint o sylw â phosibl at Ddydd Gŵyl Dewi, trefnom fod menyw fusnes leol yn mynd i stiwdio yn Llundain i siarad yn fyw ar sioe radio fwyaf poblogaidd Prydain, sef sioe Chris Evans yn y boreau ar Radio 2. Gan fod gan y rhaglen dros 8 miliwn o wrandawyr wythnosol, roedd hon yn dipyn o bluen nid yn unig yng nghap Sir Gaerfyrddin ond Cymru yn gyffredinol, wrth i bethau fel *cawl* a bwydydd eraill o Gymru gael eu blasu a'u trafod yn fanwl.

**Cymraeg mewn Wythnos!**

Ym mis Chwefror, roedd saith aelod o staff o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi mynychu'r cwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn yng Ngogledd Cymru. Cafodd y cwrs ei drefnu a'i ariannu mewn partneriaeth â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Nod y cwrs 1 wythnos hwn oedd ymdrochi ein staff yn y Gymraeg a chynyddu'r hyder oedd ganddynt i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Mae'r cwrs nid yn unig wedi helpu ein staff i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle, ond hefyd yn ein cymunedau.





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol
dros yr Iaith Gymraeg, Diwylliant a Thwristiaeth
**Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.


Dechrau'n Dda
Byw'n Dda
Heneiddio'n Dda
Amgylchedd
Iach, Diogel
Llewyrchus

# Adeiladu Gwell Cyngor a Gwell Defnydd o Adnoddau



# Amcan Llesiant 15a - Adeiladu Gwell Cyngor

## Trefniadau Llywodraethu Derbyniol yn eu lle

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gweithredu *Cod Llywodraethu Corfforaethol* sy'n mabwysiadu egwyddorion arfer gorau Fframwaith Llywodraethu CIPFA / SOLACE Cymru. I sicrhau bod y canllawiau arfer gorau hyn yn cael eu bodloni, bu i'n Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynnal cyfrifiad stoc o'n trefniadau o gymharu â'r safon. Canfu fod y modd roeddem yn cydymffurfio yn '*dderbyniol'.*

Mae'r canllawiau arfer gorau yn nodi bod 91 o ymddygiadau a chamau sy'n dangos llywodraethu dros ar draws 7 *o egwyddorion.* Dangosodd ein cyfrifiad stoc fod gennym dystiolaeth lawn gref ar gyfer 54 o'r rhain a thystiolaeth lawn bron ar gyfer y rhan fwyaf o'r gweddill. Byddwn yn archwilio unrhyw fylchau ac yn blaenoriaethu gwelliannau, lle bo'r angen...nid ticio pob blwch sy'n bwysig yma.

Mae trefniadau llywodraethu da yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a'i flaenoriaethau corfforaethol yn effeithiol. Mae gwneud penderfyniadau agored a thryloyw; rheolaeth ariannol a chyllidebol; trefniadau craffu effeithiol; rheoli risg strategol a gwaith partneriaeth effeithiol yn feysydd sy'n effeithio ar y modd y mae'r Cyngor yn rhedeg ei fusnes er budd pobl leol. Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau llywodraeth leol fwy effeithiol, moesegol, tryloyw ac atebol, sy'n ategu ac yn gwella cyfranogiad y cyhoedd a democratiaeth.

## Mesurau Llwyddiant

*Nid oes cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn ar gael ar gyfer y mesurau hyn*

**70.8%** o bobl yn cytuno y gallant gael gwybodaeth amdanom ni yn y ffordd maent yn ei ddymuno.
(Cyfartaledd Cymru 75.2%)
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

**71.9%** o bobl yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau rydym yn eu darparu
(Cyfartaledd Cymru 75.8%)
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

**11.4%** o bobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch rhedeg ein gwasanaethau
(Cyfartaledd Cymru 17.3%)
*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Mae salwch staff wedi gostwng o **10.8** diwrnod i **10.1** diwrnod y flwyddyn
(a phrif achos salwch yw stra iechyd meddwl a blinder)

## Egluro'r Canlyniadau

- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18
  - **70.8%** o'r cyfranogwyr yn cytuno **y gallent gyrchu gwybodaeth amdanom ni yn y modd roeddent yn ei ffafrio,** mae hyn islaw cyfartaledd Cymru o 75.2%, ac rydym yn y 18fed safle.
  - **71.9%** yn cytuno eu bod yn **gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau rydym yn eu darparu,** unwaith eto mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 75.8% ac rydym yn yr 17eg safle.
  - Dim ond **11.4% oedd yn cytuno bod cyfle ganddynt i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch rhedeg ein gwasanaethau,** ac mae hyn yn is o lawer na chyfartaledd Cymru o 17.3% ac rydym yn yr 16eg safle.
- Mae data am salwch yn cael ei fonitro a'i ddadansoddi'n rheolaidd i sicrhau taw ar leihau absenoldeb mae'r pwyslais. Rydym wedi sefydlu fforwm Herio ac Adolygu sy'n nodi lle ceir bylchau ac arfer da.

## Y Cynnydd a Wnaed

Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae'n ofynnol cael **7 maes** o newid corfforaethol, sy'n un o ddisgwyliadau allweddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth Adrodd yn Flynyddol.

Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol - Y daith hyd yn hyn : Mai 2018

| | |
|---|---|
| 1 Cynllunio Corfforaethol<br>2 Rheoli Perfformiad<br>3 Cynllunio'r Gweithlu | Cwmpesir gan Adeiladu Gwell Cyngor |
| 4 Cynllunio Ariannol<br>5 Asedau<br>6 Caffael<br>7 Risg | Cwmpesir gan Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau (Tudalen x) |

### Cynllunio Corfforaethol

- Mae Bwrdd Gweithredol y Cyngor wedi nodi bron 100 o brosiectau, cynlluniau neu wasanaethau blaenoriaeth maent yn bwriadu eu rhoi ar waith yn *'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf'.* Felly rydym wedi cyhoeddi Strategaeth Gorfforaethol newydd sy'n dod â'r Strategaeth Gorfforaethol flaenorol, y Cynllun Gwella, yr Amcanion Llesiant a 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf' at ei gilydd.
- Mae cymorth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi bod yn mynd rhagddo gydol y flwyddyn ac mae arweiniad wedi cael ei roi ar ddatblygu *Cynllun Llesiant* a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018.

### Rheoli Perfformiad

- Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru Dystysgrif Cydymffurfiaeth ar gyfer Adroddiad Blynyddol y llynedd.
- Rydym wedi ail-lunio'r modd rydym yn Monitro ein Perfformiad ac yn Adrodd fel ei fod yn gweddu'n llawn i'r Amcanion Llesiant. Roeddem wedi olrhain y camau roeddem yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn drwy ddefnyddio ein System Monitro Gwybodaeth Perfformiad (PIMS) ac wedi adrodd am y cynnydd yn chwarterol. Mae hwn yn un o ddisgwyliadau allweddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Cynllunio'r Gweithlu

- Datblygwyd offeryn asesu i helpu meysydd gwasanaeth i nodi'r problemau o ran cyflenwad a galw
- Mae swyddogion Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli Adrannol fel Partneriaid Busnes.

### Cynnydd Arall

- Cynhaliwyd Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017 a refferendwm Brexit ym mis Mehefin 2017. Darparwyd rhaglen sefydlu o sylwedd i'r aelodau.
- Rydym wedi ymrwymo i wella ffyrdd o weithio drwy waith y rhaglen 'Trawsnewid i Wneud Cynnydd' (TIC). Helpodd y tîm TIC i gefnogi 20 o brosiectau ac adolygiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys lansio gweithio ystwyth.
- Rydym wedi cael yr **achrediad arian** o ran y Safon Buddsoddwyr mewn Pobl, gan ddangos ein hymrwymiad i berfformiad da drwy reoli pobl yn dda. Hon yw'r safon ryngwladol ar gyfer rheoli pobl. Rydym wedi meddu ar achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl dros yr wyth mlynedd diwethaf ond dim ond 5 y cant o'r sefydliadau a asesir sy'n llwyddo i ennill y safon Arian.
- Fel cyflogwr allweddol yn y sir, rydym wedi symud ymlaen o'r Cynllun Anabledd Tic Dwbl i fod yn Gyflogwr sydd â Hyder Mewn Pobl Anabl.
- Mae gwelliannau wedi'u gwneud i sicrhau **hygyrchedd gwefan y Cyngor** drwy vchwanegu **Browse Aloud,** ac mae hyn yn galluogi defnyddwyr i wrando ar gynnwys y we yn Gymraeg neu yn Saesneg os ydynt yn cael anhawster darllen (o achos dyslecsia, anawsterau dysgu neu ychydig o nam ar y golwg.)
- Gwnaethom gyhoeddi ein *Strategaeth Trawsnewid Digidol 2017-2020* sy'n amlinellu'r weledigaeth ddigidol strategol ac sy'n nodi nifer o brosiectau allweddol a gaiff eu darparu dros y tair blynedd nesaf.
- Mae cynnydd llwyddiannus wedi bod yn y defnydd o raglenni e-ddysgu yn cynnwys meysydd megis *Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*.

### Ymgynghoriad ynghylch y Gyllideb 2017/18

Mae ysgolion ar draws Sir Gaerfyrddin wedi rhoi eu barn i Gynghorwyr am y cynigion cyllidebol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Rhoddwyd cyflwyniadau ynghylch y cynigion y mae ymgynghori'n digwydd yn eu cylch gan ddisgyblion ysgolion uwchradd yng nghyfarfod y Cyngor Sir. Roedd hyn yn dilyn diwrnod Golwg Sir Gâr a gynhaliwyd yn Theatr y Ffwrnes fel rhan o ymgynghoriad y Cyngor ynghylch y gyllideb.





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Rheoli Perfformiad, TGCh, TIC: **Y Cynghorydd Mair Stephens**

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.

## Dros y 5 mlynedd diwethaf, rydym wedi gwneud gostyngiadau o £54 miliwn yn y gyllideb gyda'r effaith leiaf posibl ar wasanaethau rheng flaen

Mae awdurdodau lleol wedi wynebu'r un sefyllfa ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, sef toriadau sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus. Golyga hyn fod gennym lai o arian i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau nawr nag yn y gorffennol. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi gorfod rheoli gostyngiadau o £54 miliwn yn y cyllidebau sydd ar gael i wasanaethau, ac ar yr un pryd mae'r gwasgfeydd ar y gyllideb wedi bod yn cynyddu o ran galw a disgwyliadau.

***'Mae gan y Cyngor drefniadau pendant o ran cynllunio arbedion, sy'n cefnogi cydnerthedd ariannol yn y dyfodol…'***
*(Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad Cynllunio Arbedion Mawrth 2017 Paragraff 13)*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## Pam mae'n bwysig

- Mae'r disgwyliadau a'r galwadau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan gyflawni '*Mwy (neu hyd yr oed yr un peth) am lai'*.
- Mae gwasgfeydd ariannol pellach yn debygol o ddeillio o bethau megis costau ynni cynyddol; cynnydd yn nifer y bobl hŷn y mae angen ein gwasanaethau arnynt; swyddfeydd, adeiladau ysgol a phriffyrdd y mae angen buddsoddi'n helaeth ynddynt, gan gofio bod hyn yn ychwanegol at yr ansicrwydd presennol o ran rhagolygon economaidd wrth i'r DU gychwyn y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.

## Mesurau Llwyddiant

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council — YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

**18.9%** o gynnydd mewn Taliadau *'Ar-lein Amdani'* (O 29,020 i 34,494)

**£8.609m** o arbedion cyfredol wedi'u gwneud yn 2017/18

Dim cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn ar gael

**8%** o bobl yn cytuno ein bod yn gofyn am eu barn cyn pennu ein cyllideb

(Cyfartaledd Cymru 12.4% ac yn y 13eg safle)
*(Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru)*

## Egluro'r Canlyniadau

Mae rhoi rhagor o sylw i'r Blaenoriaeth Llesiant *Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau* yn berthnasol i bob maes gwasanaeth, ac mae'n ymwneud â buddsoddi yn ogystal â gwneud arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fodelau cyflawni sy'n ariannol gynaliadwy - ceir llawer o enghreifftiau o hyn ar draws gwahanol adrannau, fel cynyddu'r *Ddarpariaeth Gofal Ychwanegol* lle mae'n bodloni anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yn well, symud tuag at *weithio ystwyth,* a thrwy hynny leihau costau ystad y Cyngor yn y dyfodol. Un o brosiectau TIC yw *Newid Sianeli*, sy'n ceisio gwella'r ffordd y gall cwsmeriaid allanol gyrchu Gwasanaethau'r Cyngor yn gyfleus ac annog newid i ddulliau llai costus o gyrchu gwasanaethau megis taliadau *'Ar-lein Amdani'.*

Yn anffodus, yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18, dim ond 8% o'r cyfranogwyr oedd yn cytuno ein bod *yn gofyn am eu barn cyn pennu ein cyllideb* (cyfartaledd Cymru 12.4%). Roeddem wedi ymgynghori ynghylch Cyllideb 18/19 ac wedi cael 730 o ymatebion.

## Y Cynnydd a Wnaed

**CYNLLUNIO ARIANNOL:** Cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth ynghylch y gyllideb drwy seminarau ar gyfer cynghorwyr sir, cynghorau tref a chymuned, fforwm cyhoeddus, pwyllgorau craffu, fforwm cyllidebau ysgol, y Cyngor Ieuenctid a chyfarfodydd undebau llafur.

**ASEDAU:** Bellach mae gennym ymagwedd sy'n fwy cynaliadwy a hir dymor at asedau eiddo ac adfywio. Er enghraifft, rydym yn prydlesu Harbwr Porth Tywyn i gwmni marina arbenigol, a fydd yn sicrhau cynaliadwyedd yr Harbwr yn y tymor hir.

**CAFFAEL:** Ystyrir bod caffael yn rhan bwysig o sut mae corff cyhoeddus yn dyrannu adnoddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac fel swyddogaeth strategol yn y Cyngor rydym yn cefnogi adrannau i gyflawni ein 15 o amcanion llesiant. Mae ein Strategaeth gaffael ddrafft gyfredol yn nodi bod y rhain yn lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant, yn creu mwy o swyddi a thwf ar draws y sir, yn gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant, ac yn llywodraethu a defnyddio adnoddau.

**RISGIAU:** Rydym yn rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref. Cafodd ein Cofrestrau Risg, Corfforaethol, Adrannol a Gwasanaeth i gyd eu diweddaru yn 2017/18 yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Cynnydd Arall

- Casglwyd **97.57**% o'r *Dreth Gyngor* oedd yn ddyledus ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 sy'n welliant o 0.52% o'r flwyddyn flaenorol sef 97.05%, a hwn yw'r ffigur casglu 9fed uchaf yng Nghymru (i fyny o'r 17eg safle ar gyfer y llynedd).
- Casglwyd **99.52%** o *ardrethi annomestig* ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 sef y **ffigur uchaf yng Nghymru.** Mae hwn yn welliant ers y flwyddyn flaenorol o 98.20% a'r 9fed uchaf.
- Rydym wedi parhau i gyflawni gofynion *Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau,* gan ddarparu cytundeb partneriaeth o ran cyllidebu cymorth i hawlwyr sy'n agored i niwed a darparu cymorth technegol/arbenigol ar gyfer canolfannau cyflwyno credyd cynhwysol.

**BUDD I'R GYMUNED:**

Mae Dawnus, y contractwr ar gyfer adeiladu Ysgol Gynradd newydd yn Nhrimsaran wedi cwblhau Offeryn Mesur Budd Cymunedol Llywodraeth Cymru i olrhain y manteision sydd ynghlwm wrth y prosiect. Amcangyfrifwyd ar gyfer pob £1 a wariwyd ar y prosiect hwn, fod £1.89 yn cael ei ailfuddsoddi yn economi Cymru. Hyd yn hyn roedd y prosiect, yr amcangyfrifir y bydd yn costio £7 miliwn i'w adeiladu, wedi recriwtio 4 unigolyn a oedd wedi bod yn ddi-waith am dros 6 mis ac roedd 9 unigolyn arall wedi cael eu cadw o ganlyniad i'r gwaith hwn y byddent fel arall wedi cael eu gwneud yn ddi-waith. Mae'r contractwr wedi darparu 754 wythnos person o recriwtio a hyfforddi a dargedwyd, ac mae hyn wedi bod o fudd i'r gweithlu lleol yn yr ardal/cymuned leol.





Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau:
Y Cynghorydd David Jenkins

Cliciwch yma i gael gweld ein cynnydd manwl o ran yr amcan hwn.


Dechrau'n Dda
Byw'n Dda
Heneiddio'n Dda
Amgylchedd
Iach, Diogel
Llewyrchus

# ATODIADAU

# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar wahân ond sy'n gysylltiedig hefyd. Roedd ein Cynllun Llesiant yn cyfuno'r gofynion ac mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn gwneud yr un peth.

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

- Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Gwella bob blwyddyn. Nid oes yn rhaid iddynt newid bob blwyddyn, nac ychwaith gael eu cyflawni o fewn blwyddyn.
- Yn y bôn mae ein Hamcanion Gwella yr un fath â'n Hamcanion Llesiant, gan eu bod wedi'u seilio ar ddealltwriaeth drylwyr seiliedig ar dystiolaeth o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac anghenion lleol. Rydym yn cymharu perfformiad ein gwasanaeth a'n canlyniadau bodlonrwydd â phob Cyngor yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gwella lle mae angen i ni wella fwyaf.
- Mae dyletswydd arnom i wella, gan ddarparu'r 'un gwasanaethau (neu hyd yn oed fwy o wasanaethau) am lai o arian'.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf yw hon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn newid agweddau ar sut rydym yn gweithio. Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf newydd yn nodi:-

a) Bod yn rhaid i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw
***'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'***

b) Mae'n rhaid i ni arddangos 5 ffordd o weithio:
Tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol (gweler **Atodiad 1**)

c) Mae'n rhaid i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.




